Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | 10 Medi, 2015 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admindenbighshire.gov.com.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 18 MEDI 2015** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Safonau.

**2 YMDDIHEURIADAU**

**3 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2015 (copi ynghlwm).

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**7 YMWELIADAU I GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn ymwneud ag ymweliadau blaenorol Aelodau'r Pwyllgor i arsylwi gweithrediadau Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2014/15** (Tudalennau 21 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar gyfer 2014/15.

**9 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – TAFLEN FFEITHIAU COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 95 - 102)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) am ddwy daflen ffeithiau a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer eu dosbarthu i Aelodau Etholedig y Cyngor Sir, a Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn Sir Ddinbych.

**10 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 103 - 128)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) am Lyfr Achosion Cod Ymddygiad a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

**11 PROTOCOL HUNANREOLEIDDIO AR GYFER CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 129 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar y protocol drafft.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 12 ADBORTH O FFORWM SAFONAU GOGLEDD CYMRU

I dderbyn adroddiad ar lafar gany y Swyddog Monitro.

## 13 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

## 14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 4 Rhagfyr, 2015 yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

## RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff “12 ac 13” Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

## 15 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

(Tudalennau 133 - 134)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy’n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## AELODAETH

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne Mellor

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Barry Mellor

## COPIAU I’R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 22 Mai 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol, Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes, Anne Mellor, y Cynghorydd David E. Jones a'r Cynghorydd Sir Bill Cowie

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Dirprwy Swyddog Monitro (LJ), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor a chyflwynodd y ddau aelod annibynnol newydd, Julia Hughes ac Anne Mellor.

## 1 ETHOL IS-GADEIRYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol i ohirio ethol Is-Gadeirydd nes cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a gynhelir ar 18 Medi 2015.

***PENDERFYNWYD*** *bod ethol Is-Gadeirydd yn cael ei ohirio tan 18 Medi 2015.*

## 2 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Paula White a/ac Cynghorwr(wyr) Barry Mellor.

## 3 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2015 (dosbarthwyd ynghynt).

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cadeirydd i’r papurau gael eu hanfon allan yn gynt - 7 diwrnod cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau bod digon o amser i Aelodau ddarllen drwy'r papurau.

Materion yn codi:

Eitem 2 - cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod copi o'r ffurflenni Datgan Cysylltiad wedi eu hanfon at holl Glercod y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Eitem 4 – Roedd yr Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Clercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned wedi'i gynnal. Roedd wedi bod yn sesiwn hyfforddi rhagorol ond, yn anffodus, nid oedd yna lawer yn bresennol.

Eitem 5 – roedd Fforwm Safonau Gogledd Cymru wedi cael ei ail-drefnu o 30 Mai 2015 a byddai nawr yn cael ei gynnal ar 16 Mehefin 2015 yn Rhuthun.

Diolchodd y Cynghorydd Bill Cowie i'r Dirprwy Swyddog Monitro am ddosbarthu'r rhifau cyswllt ar gyfer holl Glercod y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Eglurodd y Cadeirydd wrth y ddau aelod annibynnol newydd y byddai croeso iddynt ymweld â'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned pan oeddent yn rhydd i wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *–yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2015 fel cofnod cywir.*

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM), Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w hystyried.

Byddai'r Gynhadledd Safonau i'w chynnal yng Nghaerdydd ar 20 Hydref 2015 yn cael ei hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau i'w gynnal ar 16 Medi, byddai trefniadau'n cael eu hystyried o ran pwy fyddai'n mynychu'r Gynhadledd.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod adroddiad wedi cael ei lunio ynghylch Llyfr Achos newydd yr Ombwdsmon a oedd yn tynnu sylw at faterion. Roedd y cwestiwn o ddatrysiad lleol yn cael ei symud i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned wedi'i godi ac eglurodd y Swyddog Monitro y byddai barn y Cynghorau yn cael ei fesur o ran a fyddent angen cymorth i lunio proses. Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y byddai Clercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned angen arweiniad a byddai templed fframwaith yn cael ei ddarparu. Cynnydd ynghylch y canllawiau a'r templed fframwaith i gael ei ychwanegu at y cyfarfod ar 16 Medi 2015 am y wybodaeth ddiweddaraf.

Trafodwyd ymweliadau Aelodau'r Pwyllgor Safonau i gyfarfodydd Cyngor Dinas, Tref a Chymuned. Cytunwyd y byddai'r Dirprwy Swyddog Monitro yn cynhyrchu rhestr flynyddol o'r holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a oedd wedi derbyn ymweliad er mwyn galluogi ymagwedd ragweithiol ar gyfer ymweliadau â Chynghorau eraill yn y dyfodol. Byddai'r eitem hon yn cael ei hychwanegu at y cyfarfod ar 16 Medi 2015.

Awgrymodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y dylai'r ymweliadau â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned gael eu cynnal gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro os byddai Clercod yn anfon rhestr o’u cyfarfodydd sydd i ddod, yna gellid trefnu ymweliadau mewn ffordd drefnus er mwyn sicrhau nad ydynt yn dyblygu ymweliadau. Bwriad yr ymweliadau oedd er mwyn dysgu ac nid chwilio am feiau. Byddai angen i hyn gael ei wneud yn glir i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyda'r cynnwys y cytunwyd arnynt.*

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod blynyddol y Cyngor i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei gyflwyno ddwywaith i'r Pwyllgor Safonau cyn y Cyngor Blynyddol. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd.*

**8 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CANLLAWIAU DIWYGIEDIG Y COD YMDDYGIAD**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Safonau am y cyflwyniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer Aelodau etholedig o ran y Cod Ymddygiad.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2015, cafodd papur trafod a luniwyd gan yr Ombwdsmon ei gyflwyno. Roedd y papur ynglŷn â’i fwriad i gyflwyno ystyriaeth er budd y cyhoedd yn ei brawf dau gam a ddylid ymchwilio i gŵyn a wnaed yn erbyn Aelod Etholedig yn honni eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Roedd y canllawiau ar y Cod Ymddygiad yn cynnwys ffactorau lles y cyhoedd yn y prawf dau gam yn ogystal â gwneud newidiadau eraill i'r canllawiau blaenorol.

Roedd yr Ombwdsmon wedi cynhyrchu dwy ddogfen cyfarwyddyd, un ar gyfer Aelodau etholedig Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol ac un ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned.

Roedd ffactorau lles y cyhoedd i'w hystyried gan yr Ombwdsmon fel rhan o'r prawf dau gam wedi eu nodi yn y canllawiau.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai nodyn briffio’n cael ei lunio ac y byddai dolen i'r canllawiau’n gael ei hanfon at Gynghorwyr Sir a Chlercod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i’w godi gyda'u Cynghorau perthnasol. Byddai'r canllawiau Cod Ymddygiad diwygiedig yn cael eu cynnwys yn ystod sesiynau hyfforddi.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cytunodd y Swyddog Monitro i gysylltu â'r Ombwdsmon i ganfod sut oedd cwynion yn cael eu cofnodi ac am ba mor hir y cawsant eu harbed.
- Awgrymodd yr Aelod Annibynnol, Julia Hughes, gan fod nifer o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cynhyrchu dogfennaeth swmpus, efallai y byddai'n haws i bawb oedd yn bresennol os byddai papur briffio'n cael ei anfon allan i arbed y llwyth gwaith beichus o gynhyrchu nifer o ddogfennau. Cytunodd a chadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai'n trafod hyn gyda'r Swyddog Monitro i gael ffordd o wneud cyfathrebu'n broses haws.
- Awgrymodd y Swyddog Monitro y gallai unrhyw wybodaeth allweddol gael ei dosbarthu ar ddiwedd pob cyfarfod Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Canllawiau Cod Ymddygiad Diwygiedig yn cael eu derbyn a'u nodi.*

**Ar y pwynt hwn (11.20am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.35am.**

## 9 DATGAN BUDDIANNAU A LLETYGARWCH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i amlinellu gweithdrefnau i Aelodau gwblhau cofrestr o'u cysylltiadau ac i ddatgan cysylltiad ag eitemau busnes mewn cyfarfodydd maent yn eu mynychu. Mae hefyd yn edrych ar gofnodi lletygarwch a rhoddion a gynigir i Aelodau a Swyddogion.

Roedd y Cyngor wedi bod yn datblygu ei brosesau dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn bwriadu adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Safonau ar ba mor dda maent yn cefnogi lefelau cydymffurfiaeth mewn perthynas â datganiadau gorfodol o fewn Sir Ddinbych.

Roedd yn ofynnol i'r Aelodau ystyried a oes ganddynt gysylltiad personol yn y busnes y maent yn ymgymryd ag ef yn eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Roedd y Cod hefyd yn delio â chofrestru cysylltiadau ariannol ac eraill, ac aelodaeth a swyddi rheoli gan yr Aelodau y dylid eu datgan.

Roedd darpariaethau a amlinellir yn y Cod Ymddygiad yn cydymffurfio â Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r Cyngor yn rhoi cyngor a gweithdrefnau i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu rhwymedigaethau. I gychwyn, roedd ffurflen i gofrestru cysylltiadau wedi ei chynnwys ym mhecynnau sefydlu pob aelod yn dilyn etholiad Llywodraeth Leol. Roedd y gofrestr cysylltiadau wedi eu llofnodi wedi eu cynnal ar ffurf papur ac ar gael i'w harchwilio ar gais.

Roedd adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a ddaeth i rym y mis hwn, yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestrau cysylltiadau Aelodau gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig am y tro cyntaf. Roedd y Cyngor wedi bod yn trosglwyddo'r cofrestrau i'r adran "Eich Cyngor" ar y wefan gyhoeddus a oedd yn

cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r Aelodau etholedig. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn o drosglwyddo i'r wefan, cysylltwyd â'r holl Gynghorwyr gan ofyn iddynt ddiweddaru neu gadarnhau fod yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn wreiddiol yn dal yn gywir ar y cofrestrau.

Byddai unrhyw ddatganiadau a wnaed mewn unrhyw gyfarfod yn cael ei gynnwys ar y wefan hefyd.

Mae'r Swyddog Monitro'n cadw cofrestr sy'n cofnodi datgan rhoddion a lletygarwch, ynghyd â'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r rhoddwr a'r derbynnydd. Byddai disgrifiad o'r rhodd neu letygarwch a gynigir, ynghyd â'i werth, y dyddiad a'r rheswm dros y cynnig hefyd yn cael eu cofnodi. Nid oedd angen cofrestru rhoddion, lletygarwch neu fuddion eraill ac ati, sy'n werth llai na £25 gyda'r Swyddog Monitro.

Cynhaliodd Tîm Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych adolygiad o'r prosesau datgan cysylltiad a lletygarwch ym mis Awst 2014 fel rhan o'u gwaith ar Fframwaith Sicrwydd Trefn Lywodraethu Gorfforaethol y Cyngor. Daethant i'r casgliad eu bod yn fodlon bod rheolaeth eithaf da ar waith ar gyfer cofnodi datgan cysylltiadau a derbyn rhoddion a lletygarwch. Fodd bynnag, canfuwyd y gallai'r prosesau fod yn fwy cadarn ac effeithlon o ran y ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadolygu ac y byddai hynny'n helpu i sicrhau y gellid nodi unrhyw fylchau neu gamgymeriadau yn hawdd. Arweiniodd yr adolygiad at y canllawiau a gweithdrefnau newydd yn cael eu cyflwyno o ail hanner y flwyddyn ddiwethaf.

***PENDERFYNWYD** adolygu a nodi'r adroddiad a chytunwyd i adolygu materion datganiadau cysylltiad, rhoddion a lletygarwch yn flynyddol.*

**10 ADBORTH O'R HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD AR GYFER CLERCOD CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED**

Cyflwynodd y Cadeirydd, Ian Trigger adborth o'r Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Clercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 19 Mai 2015.

Roedd yr hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi ei gynnal gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro. Yn anffodus, roedd niferoedd presenoldeb y Clercod yn isel. Roedd y cwrs hyfforddi wedi cael ei baratoi a'i gyflwyno yn arbennig o dda. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith rhagorol.

Roedd yr hyfforddiant ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth am y Cod Ymddygiad a gwella ymddygiad. Roedd yn gyfle i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned wella eu gwybodaeth eu hunain.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n mynychu cyfarfod Clwstwr yn y dyfodol i annog presenoldeb Clercod mewn sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

Dywedwyd bod y Clercod a oedd yn bresennol yn ymddangos eu bod wedi elwa o'r hyfforddiant heb Aelodau yn bresennol. Roeddent wedi gallu trafod mewn sesiwn agored y problemau a'r materion y maent yn eu hwynebu.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y gall y sesiwn hyfforddi nesaf i'w gynnal ym mis Medi, gael ei gynnal yn y gogledd o'r sir ac o bosibl cyfarfod gyda'r nos, ond byddai angen cadarnhau hyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adborth o'r Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.*

**11 HYFFORDDIANT AR GYFER CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), i roi adroddiad gwybodaeth i'r Aelodau gyda manylion yr hyfforddiant a gynigir ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi pwysleisio o'r blaen y manteision o hyfforddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, fel rhan o'r dull cyffredinol o godi safonau moesegol ymhlith aelodau etholedig. Bydd sgiliau cadeirio da yn cyfrannu at wneud penderfyniad effeithiol a chyfreithlon sydd yn amlwg o fudd democratiaeth leol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Aelodau am yr hyfforddiant a fyddai'n cael ei gyflwyno gan hyfforddwr allanol Kim Bedford.

Byddai'r hyfforddiant arfaethedig yn ddigwyddiad hanner diwrnod ar 29 Mehefin 2015 o 1.30pm. Cysylltwyd â holl Glercod y Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned i gadarnhau presenoldeb.

Oherwydd y gost i'r Cyngor Sir, codir tâl o £35 y pen i dalu'r costau hynny. Y bwriad oedd i gyfyngu ar y llefydd i ddau o bob Cyngor, sef y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion presennol neu ddarpar. Os byddai ffigurau presenoldeb yn isel, yna byddai'r cwrs hyfforddi'n cael ei ganslo.

Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Bill Cowie ac Aelodau Annibynnol, Julie Hughes ac Anne Mellor yn mynychu'r sesiwn hyfforddi.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*

**12 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi adborth o gyfarfodydd Cyngor Sir, Dinas, Tref a Chymuned yr oeddent wedi'u mynychu'n ddiweddar.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod wedi mynychu Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar ac roedd yn dda gweld cefnogaeth drawsbleidiol yn ystod y cyfarfod a hir y parhaed.

Mynychodd y Cynghorydd David Jones gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr DC yn Ebrill. Roedd dwy swydd wag a gobeithio y byddent yn cael eu llenwi trwy gyfethol. Roedd gan y Cyngor Cymuned Glerc newydd hefyd. Dywedodd y

Cynghorydd Jones fod y cyfarfod wedi bod yn anffurfiol, ond roedd y strwythur yn rhagorol a bu’n gyfarfod addysgiadol iawn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi'r adborth a gyflwynwyd o gyfarfodydd diweddar a fynychwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.*

**13 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nododd yr Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 18 Medi 2015 am 10.00am yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Mynegodd y Cynghorydd David Jones bryder ynghylch cyhoeddi gwybodaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn electronig a'r ffaith bod y Cynghorwyr Cymuned yn wirfoddolwyr. Dywedodd y Cynghorydd Jones y gallai fod gwrthwynebiad a phryder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan Gynghorwyr Cymuned.

Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro ei fod yn ofyniad newydd a oedd bellach yn orfodol.

Cytunwyd i godi'r mater yng nghyfarfodydd Clwstwr yn y dyfodol ac i anfon canllawiau.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD -*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**14 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r adroddiad Cod Ymddygiad - Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi trosolwg i'r Aelodau o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGORAU SAFONAU**

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| **4 Rhagfyr 2015** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| **4 Mawrth 2016** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| **24 Mehefin 2016** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| **16 Medi 2016** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| **2 Rhagfyr 2016** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **18 Medi 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Ymweliadau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ymweliadau blaenorol Aelodau'r Pwyllgor i arsylwi gweithrediadau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Rhoi manylion i'r Pwyllgor am yr ymweliadau blaenorol gan yr Aelodau er mwyn sicrhau y caiff ymweliadau yn y dyfodol eu cynllunio mewn modd sy'n golygu nad ydym yn ymweld â chynghorau fwy nag unwaith.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarperir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ymweliadau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn y dyfodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mai, bu Aelodau'n trafod eu hymweliadau i arsylwi gweithrediadau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Diben yr ymweliadau hyn yw arsylwi gweithrediadau'r cyngor perthnasol, er mwyn gwneud y cynghorau hynny yn ymwybodol o waith y Pwyllgor Safonau, i roi cyngor ac o bosibl i nodi meysydd posibl ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol.

4.2 Cytunodd yr Aelodau y byddai o gymorth wrth gynllunio a chydlynu ymweliadau o'r fath, eu bod i gyd yn ymwybodol o'r ymweliadau a oedd wedi eu cynnal yn flaenorol er mwyn osgoi dyblygu ymweliadau cymharol ddiweddar a chanolbwyntio ar ymweld â chynghorau nad oeddynt wedi ymweld â nhw'n ddiweddar.

4.3 Ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn, mae tabl sy'n nodi'r ymweliadau a nodwyd ar lafar i'r Pwyllgor gan Aelodau ers Chwefror 2013, ynghyd â ble mae wedi'i gofnodi, a dyddiad yr ymweliadau hynny.

4.4 Hefyd wedi ei gynnwys i roi cymorth i'r Aelodau yn Atodiad 2 y mae rhestr o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych, wedi'u trefnu yn ôl

grwpiau clwstwr. Mae'r Cyngor Sir yn trefnu cyfarfodydd clwstwr gyda chynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned i ymgysylltu â nhw a rhoi gwybodaeth iddynt. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu trefnu ar sail ardal neu ar sail clwstwr. Bydd aelodau yn gallu adnabod pa un o'r gwahanol Gynghorau sydd wedi eu lleoli o fewn pob ardal glwstwr.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid yw'r mater hwn wedi cael ei adrodd neu ymgynghori yn rhywle arall.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae perygl, os nad yw Aelodau yn ymweld â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, yna efallai na fydd materion hyfforddiant neu ymddygiad sydd angen mynd i'r afael â nhw yn cael eu dwyn i'r amlwg, ac ni fydd modd i'r Pwyllgor fynd ati i annog safonau uchel o ymddygiad.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad.

**Atodiad 1**

## Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd Cyngor Dinas, Tref a Chymuned

**(ynghyd â chyfarfodydd amrywiol eraill)**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Safonau 6 Mawrth 2015** | |
| Dim adroddiadau wedi dod i law | |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 23 Ionawr 2015** | |
| Cyngor Tref Rhuddlan | Ionawr 2015 |
| Cyngor Tref Dinbych | 12 Ionawr 2015 |
| Cyngor Tref y Rhyl | 21 Ionawr 2015 |
| Cyngor Tref Rhuthun | 20 Hydref 2014 |
| Cyngor Sir | 17 Rhagfyr 2014 |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 18 Gorffennaf 2014** | |
| Gweithdy Sgiliau | |
| Cod Ymddygiad yn Ynys Môn | |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 9 Mai 2014** | |
| Cyngor Dinas Llanelwy | Ebrill 2014 |
| Fforwm Safonau Gogledd Cymru | |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 21 Mawrth 2014** | |
| Cyngor Tref Prestatyn | 25 Chwefror 2014 |
| Cyngor Tref Rhuddlan | 13 Chwefror 2014 |
| Cyngor Dinas Llanelwy | 12 Mawrth 2014 |
| Cyngor Cymuned Llanbedr DC | 14 Chwefror 2014 |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 31 Ionawr 2014** | |
| Cyngor Cymuned Henllan | |
| Cyngor Tref Dinbych | |
| Cyngor Tref Rhuthun | |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 25 Hydref 2013** | |
| Cyngor Dinas Llanelwy | |
| Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl | 3 Gorffennaf 2013 |
| | |
| Cyfarfod Safonau 7 Mehefin 2013 | |
| Cyngor Llawn | 7 Mai 2013 |
| Cyngor Tref Dyserth | 11 Mawrth 2013 |
| Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog | 19 Mawrth 2013 |
| Cyngor Cymuned Llandyrnog | |
| | |
| **Cyfarfod Safonau 22 Chwefror 2013** | |
| Cyngor Cymuned Llandegla | |
| Cyfarfod Cyngor Llawn | 5 Ionawr 2013 |

# CYNGOR TREF A CHYMUNED

# CYFARFODYDD CLWSTWR

**Clwstwr 1 - ardal Elwy**

**Dinbych - Nantglyn - Henllan - Bodfari - Aberchwiler - Diserth - Rhuddlan - Llanelwy - Bodelwyddan - Tremeirchion, Cwm a’r Waen - Trefnant - Cefn Meiriadog - Y Rhyl - Prestatyn (14)**

**Clwstwr 2 - ardal Rhuthun**

**Rhuthun - Derwen - Clocaenog - Cyffylliog - Efenechtyd - Llanfair DC - Llanynys - Llanarmon yn Iâl - Llandegla - Llandyrnog- Llanferres - Llangynhafal - Llanbedr DC - Llanrhaeadr - Llanelidan - Betws Gwerfyl Goch (16)**

**Clwstwr 3 - Dyffryn Dyfrdwy**

**Llangollen - Llandrillo - Corwen - Gwyddelwern - Cynwyd - Llantysilio - Bryneglwys - (7)**



31st July 2012

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Medi 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2014/15** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar gyfer y flwyddyn 2014/15.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ac i ddarparu eu sylwadau ac arsylwadau.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr aelodau'n ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am 2014/15.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Bob blwyddyn, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau ei swyddfa wrth ymdrin â chwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

4.2 Mae dwy brif rôl i swyddfa'r Ombwdsmon. Y cyntaf yw ymchwilio i gwynion am gamweinyddu gan gyrff cyhoeddus. Yr ail, ac, yn fwy perthnasol i'r Pwyllgor hwn, yw cyfrifoldeb swyddfa'r Ombwdsmon am ymchwilio i gwynion yn ymwneud â honiadau o fynd yn groes i God Ymddygiad gan aelodau etholedig y Cynghorau Unedol, Dinas, Tref a Chymuned.

4.3 Mae Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon â'r teitl 'Gwneud i Gwynion Wasanaethu Cymru' wedi'i atodi yn Atodiad 1.

4.4 Yr adroddiad presennol yw nawfed adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon ers i swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei chreu ym mis Ebrill 2006. Mae'r adroddiad eleni wedi'i baratoi am y tro cyntaf gan Mr Nick Bennett, a ddechreuodd ar ei swydd fel Ombwdsmon ym mis Awst 2014, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015, ac am ran o'r cyfnod hwnnw roedd yr Athro Margaret Griffiths yn Ombwdsmon Dros Dro, ar ôl cymryd y rôl ymlaen ym mis Rhagfyr 2013 yn dilyn ymadawiad yr Ombwdsmon blaenorol Mr

Peter Tyndall a adawodd i gymryd swydd newydd fel Ombwdsmon Iwerddon a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.5 Yn ei gyflwyniad i'r adroddiad mae'r Ombwdsmon yn nodi'r moderneiddio mae wedi ei weithredu i waith mewnol ei swyddfa ac yn arbennig y defnydd cynyddol o dechnoleg. Mae hwn yn ymateb i'r cynnydd parhaus yn nifer y cwynion yr ymdriniwyd â hwy gan ei swyddfa. Dros y pum mlynedd diwethaf mae cwynion am gyrff iechyd wedi cynyddu 126% a'r rhai sy'n ymwneud â Chynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol o 10%. Mae'r Ombwdsmon yn cynnig y dylid cynyddu ymgysylltiad â chyrff iechyd a chynghorau i hyrwyddo gwelliannau o ran trin cwyno er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o faterion sy'n cael eu datrys yn lleol heb yr angen i gynnwys swyddfa'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi cynnig rhai newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r pwerau ei swyddfa ac ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o gyflwyno Mesur i ymdrin â'r materion hyn.

4.6 Yn 2013/14 bu gostyngiad yn y nifer o gwynion Cod Ymddygiad a wnaed i swyddfa'r Ombwdsmon o 22%, o 291 yn 2012/13 i 228 yn 2013/14. Ystyriodd yr Ombwdsmon y gallai'r lleihad o 22% yn nifer y cwynion y llynedd eu priodoli i gyflwyno trefniadau datrys lleol gan awdurdodau lleol ac i ymarfer yr Ombwdsmon o atgyfeirio cwynion lefel isel a wneir gan un aelod yn erbyn y llall i Swyddogion Monitro awdurdodau i ymdrin â hwy yn lleol. Yn 2014/15 bu cynnydd bach yn y nifer o gwynion Cod Ymddygiad a wnaed o 228 yn 2013/14 i 231 yn 2014/15. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.3%, sy'n gyfradd arafach o gynnydd na'r cynnydd o 7% yn nifer y cwynion cyrff cyhoeddus.

4.7 O'r 231 o gwynion a dderbyniwyd yn 2014/15, roedd 106 yn ymwneud â Chynghorau Cymuned a 125 â Chynghorau Sirol/ Bwrdeistref Sirol. Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas ag aelodau o'r Awdurdodau Tân, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol neu Baneli'r Heddlu a Throsedd.

4.8 Mae'r Ombwdsmon yn categoreiddio cwynion Cod Ymddygiad ac yn rhoi dadansoddiad o gwynion yn ôl categori. Yn 2014/15 cafodd y cwynion eu dadansoddi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | 35% |
| Datgelu a chofrestru Cysylltiadau | 22% |
| Uniondeb | 16% |
| Atebolrwydd a bod yn agored o | 10% |
| Dyletswydd i gynnal y gyfraith | 9% |
| Gwrthrychedd a phriodoldeb | 8% |
| Anhunanoldeb a stiwardiaeth | 0% |

Daeth y nifer fwyaf o gwynion o dan y categori o "hyrwyddo cydraddoldeb a pharch". Roedd y categori hwn yn cyfrif am 35% o'r holl gwynion o gymharu â 36% yn y flwyddyn flaenorol. Mae bron bob amser yn cyfrif am y gyfran uchaf o gwynion a dderbynnir. Mae'r meysydd mwyaf nesaf o gwynion yn ymwneud â datgelu a chofrestru cysylltiadau oedd yn cyfrif am 22% o'r cwynion, a gonestrwydd oedd yn cyfrif am 16% o gwynion. Y rhain hefyd oedd y tri maes mwyaf o gwynion yn 2013/14.

4.9 Caeodd swyddfa'r Ombwdsmon 239 o achosion yn 2014/15. Byddai'r ffigur hwn yn cynnwys cwynion newydd y cawsant eu trin o fewn y flwyddyn a hefyd rhai cwynion a oedd wedi eu cario drosodd o 2013/14. O'r 239 o gwynion hyn cafodd 178 eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Mae hyn yn golygu bod yr Ombwdsmon naill ai wedi penderfynu nad oedd dim tystiolaeth prima facie o dorri'r Cod, fod y toriad honedig yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad ac felly'n annhebygol o ddenu sancsiwn, neu fod achos y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol h.y. cyn iddynt gael eu rhwymo gan y Cod.

4.10 Roedd 7 cwyn wedi'u tynnu'n ôl a chafodd 20 o ymchwiliadau eu dirwyn i ben. Cafodd 44 ymchwiliad eu cwblhawyd, ac o'r rhain daeth 17 i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod, daeth 8 i'r casgliad nad oedd unrhyw gamau angenrheidiol, cafodd 8 eu hatgyfeirio i Bwyllgorau Safonau ac 1 ei atgyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru.

4.11 Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd at naill ai Bwyllgor Safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru wedi codi ychydig o 6 yn 2013/14, ond yn dal yn sylweddol is na'r 20 o achosion a gyfeiriwyd yn 2012/13

4.12 Dywed yr Ombwdsmon er bod disgwyl i Gynghorwyr Sir wneud cwynion am gyd-Gynghorwyr lleol, lefel isel o gwynion mae ei swyddfa yn ei dderbyn oddi wrth Gynghorwyr am eu cydweithwyr o hyd. Mae Swyddfa'r Ombwdsmon wedi adolygu ei arfer a bydd yn cymryd agwedd gadarnach â materion o'r fath yn y dyfodol a'u hatgyfeirio yn ôl i Swyddogion Monitro i'w datrys yn lleol.

4.13 Mae Atodiad C i adroddiad yr Ombwdsmon yn cynnwys dadansoddiad o achosion a gaewyd yn 2014/15 fesul awdurdod lleol. O'r 132 o achosion a gafodd eu cau a oedd yn ymwneud ag awdurdodau unedol, roedd 2 yn ymwneud â Chynghorwyr Sir Ddinbych, a chafodd y ddau achos ei gau ar ôl ystyriaeth gychwynnol heb yr angen am ymchwiliad. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o'r 4 cwyn a gafodd eu cau yn y flwyddyn flaenorol, pob un ohonynt wedi eu tynnu'n ôl neu eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol

4.14 Mae dadansoddiad o'r 105 o achosion wedi'u cau yn ymwneud â Chynghorau Dinas, Tref neu Gymuned, yn dangos, mewn perthynas â Sir Ddinbych, bod yna dair cwyn am aelodau Cynghorau fath yn Sir Ddinbych. O'r rhain, roedd 1 yn ymwneud â Chyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol, 1 yn ymwneud â Chyngor Tref Prestatyn, hefyd a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol ac 1 yn ymwneud â Chyngor Tref y Rhyl lle daeth yr ymchwiliad i ben. Mae hyn yn ostyngiad o'r 9 cwyn yr ymdriniwyd â hwy yn y flwyddyn flaenorol, a chafodd pob un ohonynt eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol neu eu tynnu'n ôl.

4.15 Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi adrodd ar berfformiad swyddfa'r Ombwdsmon o ran yr amser a gymerir i ystyried cwynion Cod Ymddygiad.

4.16 Mae'r Ombwdsmon yn gosod dau darged o ran amserlenni. Y cyntaf yw y dylai o leiaf 90% o'r holl achwynwyr gael gwybod o fewn 4 wythnos a fydd yr Ombwdsmon yn trin eu cyn ai peidio. Mae'r cyfnod o 4 wythnos yn rhedeg o'r dyddiad y mae digon o wybodaeth yn cael ei derbyn. Yn ystod blwyddyn 2014/15, llwyddodd yr Ombwdsmon i roi gwybod i achwynwyr o fewn 4 wythnos mewn perthynas â 79% o gwynion a dderbyniwyd, sy'n ostyngiad o 81% yn y

flwyddyn flaenorol. Mae'r Ombwdsmon yn esbonio bod aelodau etholedig yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y gŵyn yn ystod y cyfnod hwn ac yn aml yn gwneud hynny. Gall ystyried y sylwadau hyn ymestyn yr amser a gymerir i ystyried a ddylid ymchwilio, ond mae'r Ombwdsmon yn credu ei bod yn deg i wneud hynny gan y gall cychwyn ymchwiliad ffurfiol fod yn fater dyrys iawn ar gyfer aelod.

4.17 Yr ail darged yw dod â phob achos i ben o fewn 12 mis o bwynt lle mae penderfyniad yn cael ei wneud i ymgymryd â chwyn ac i gychwyn ymchwiliad. Llwyddodd swyddfa'r Ombwdsmon i gyflawni cyfradd llwyddiant 100% ar gyfer cwblhau ymchwiliadau Cod Ymddygiad o fewn 12 mis yn ystod y flwyddyn 2014/15.

4.18 Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi yn ei adroddiad bydd y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd ddwywaith y flwyddyn y llynedd yn cael ei gynhyrchu bob chwarter yn 2015/16, fodd bynnag, oherwydd y nifer isel o achosion sydd ar gael mewn rhifynnau chwarterol, bydd sylwebaeth ar y gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd bob blwyddyn yn unig. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn cyfeirio at y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn a'i brawf lles y cyhoeddus newydd, y ddau ohonynt wedi cael eu hadroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Ni ofynnir i’r Pwyllgor wneud penderfyniad.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 .

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni fu unrhyw ymgynghori gyda'r Pwyllgor Archwilio.

**9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad.

Ombwdsmon

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU



# YN GWNEUD I GWYNION
# **WASANAETHU CYMRU**

ADRODDIAD **BLYNYDDOL** 2014/15

# Adroddiad Blynyddol 2014/15

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

A osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
o dan baragraff 14 o Atodlen 1
i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon | **5** |
| **2** | Fy Rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | **8** |
| **3** | Y Gwasanaeth Cwynion | **10** |
| | - Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus | **13** |
| | - Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad | **16** |
| **4** | Gwella Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus | **20** |
| **5** | Trefn Lywodraethu ac Atebolrwydd | **22** |
| **6** | Gweithgareddau Eraill | **24** |
| **7** | Materion Ynglŷn a Chydraddoldeb | **30** |
| **Atodiad A** | Cwynion am Gyrff Cyhoeddus: Crynodebau Achosion o Adroddiadau Budd Cyhoeddus | **39** |
| **Atodiad B** | Cwynion am Gyrff Cyhoeddus: Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau yn ôl Cyrff Cyhoeddus | **51** |
| **Atodiad C** | Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad: Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau yn ôl Awdurdodau Lleol | **63** |

# 1. Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon



Nick Bennett
Ombwdsmon
*(o Awst 2014)*



Margaret Griffiths
Ombwdsmon Dros Dro
*(hyd at Gorffennaf 2014)*

Rwyf yn falch iawn o gyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn 2014/15. Hwn yw nawfed Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ers creu'r swydd ym mis Ebrill 2006. Roedd 2014/15 wrth gwrs yn flwyddyn o bontio. Cychwynnais yn fy swydd fel Ombwdsmon ym mis Awst 2014 gan olynu'r Athro Margaret Griffiths a fu'n Ombwdsmon Dros Dro hyd at fis Gorffennaf 2014 ac wedi bod yn y swydd honno ers mis Rhagfyr 2013. Dymunaf dalu teyrnged i'r Athro Griffiths am gyflawni'r swydd dros dro mor fedrus yn ogystal â'r cymorth a'r gefnogaeth a roddodd i mi yn ystod y cyfnod pontio. Roeddwn yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Arloesedd

Ar ôl i mi gychwyn yn fy swydd, un o'r pethau cyntaf a'm trawodd oedd y realiti amlwg bod y cynnydd mewn ymholiadau a chwynion i'r swyddfa hon, yr adroddwyd amdanynt yn yr Adroddiadau Blynyddol blaenorol, yn parhau yn 2014/15. Yn ystod Mehefin 2014, y mis cyn i mi gychwyn yn fy swydd, roedd hi'n arwyddocaol bod y swyddfa wedi derbyn y nifer mwyaf o ymholiadau a'r nifer mwyaf o gwynion ers i'r swydd ddod i fodolaeth ym mis Ebrill 2006. Erbyn diwedd y flwyddyn bu cynnydd o 7% yn nifer yr holl gysylltiadau o'i gymharu â 2013/14 (hynny yw, ymholiadau, cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau o awdurdodau lleol).

Wrth edrych yn ôl ar y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 126% yn nifer y cwynion am gyrff y GIG (sy'n cynnwys byrddau iechyd, Meddygon Teulu a Deintyddion). Er nad yw'n ddarlun mor ddramatig, ni ddylid anwybyddu bod cwynion am gynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol yn cynyddu hefyd. Eto, o gymharu'r sefyllfa â phum mlynedd yn ôl, bu cynnydd o 10%. Gellir gweld mwy o fanylion am y cwynion a gyflwynwyd i fy swyddfa yn ystod 2014/15 yn adran 3 yr adroddiad hwn.

Bu'r duedd hon o gynnydd yn niferoedd y cysylltiadau â fy swydd yn achos pryder i mi. Er bod gwaith canmoladwy wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diweddar i liflinio prosesau'r swyddfa o ddelio â chwynion, rwyf wedi bod yn awyddus ein bod yn ceisio clustnodi ffyrdd eraill o greu enillion effeithlonrwydd. Felly bu i mi gychwyn prosiect arloesi, a gynhaliwyd am gyfnod o dri mis.  Bu i'r holl staff ymgysylltu â hyn. Bu i'r gwaith arwain at dros 30 o gamau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gysylltiedig â newidiadau mewnol, gyda ffocws allweddol ar atgyfnerthu a chreu gwell momentwm mewn perthynas â dod yn 'swyddfa ddi-bapur'. Rydym o'r farn y bydd y dull hwn  yn ein galluogi i greu

mwy o enillion effeithlonrwydd mewn perthynas ag ymarferoldeb delio â dogfennau gwaith achos. Fodd bynnag, bydd yna oblygiadau hefyd i gyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth, ac roeddwn yn gallu cyhoeddi ym mis Chwefror y buasem yn newid ein dull fel y buasem yn gofyn am gofnodion mewn fformat electronig yn unig, ond yn gysylltiedig â hyn y buaswn yn byrhau'r amserlenni a ganiateir i gyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth ddarparu'r cofnodion y gofynnwyd amdanynt. Hefyd bwriedir cynyddu'r defnydd o Skype/cynadledda fideo er mwyn cynnal cyfweliadau ar draws Cymru.

## Newid y duedd

Yn ogystal â'r newidiadau sy'n deillio o'r gwaith arloesi, rwy'n credu'n gryf y dylem ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol a byrddau iechyd gyda'r bwriad o hyrwyddo gwelliannau o ran eu dulliau o ddelio â chwynion. Mae'r ddau sector yma yn gyfrifol am 83% o'r cwynion yr wyf yn eu derbyn. Yn ei hanfod, mae'r gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu yn adweithiol. Hynny yw, mae'n rhaid i mi ymateb i'r ymholiadau a'r cwynion sy'n cyrraedd fy swyddfa. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i weld mwy o gwynion pobl yn cael eu prosesu a'u datrys ar lefel leol, gan ddarparu datrysiad cyflymach i'r achwynwyr a gostwng lefel y cwynion sy'n cyrraedd fy nesg. Ni ellir cynnal y cynnydd yn nifer y cwynion sy'n cyrraedd fy swyddfa yn amhenodol heb adnoddau ychwanegol, ac rwyf yn awyddus i ni weithredu'n rhagweithiol er mwyn newid y duedd.

Hefyd, rwyf yn credu bod angen i ni wneud mwy mewn perthynas â chreu effaith ehangach mewn perthynas â gwella darparu gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu tuag at bolisi cyhoeddus yng Nghymru, y tu hwnt i geisio gwelliannau yn y fan y cododd y broblem. Yn ogystal â'r 'lles cyffredin' fydd yn deillio o hyn, rwyf yn credu y bydd hyn yn y pen draw yn arwain at lai o gwynion yn cyrraedd fy swyddfa. Fel rhan o'r rhaglen hon, byddaf yn rhoi mwy o bwyslais ar gasglu data yn fy swyddfa fy hun mewn perthynas â'r cwynion yr ydym yn eu derbyn, fel y gallwn greu data ystadegol manylach, ac felly gwybodaeth, mewn perthynas â thueddiadau a phatrymau ynghylch y cwynion yr ydym yn eu derbyn.

Rwyf hefyd wedi meddwl yn ddwys ynglŷn â sut y dylid strwythuro fy adnoddau staffio er mwyn fy ngalluogi i gyflawni'r pethau hynny sy'n flaenoriaethau i mi. Ar ôl penderfynu ar fy nghasgliadau, cyflwynais fy nghynigion i fy staff ym mis Mawrth 2015. Byddaf yn cychwyn ar weithredu'r newidiadau hynny yn gynnar yn 2015/16.

## Ymchwiliad y Cynulliad i Bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Agwedd arall y bu i mi roi sylw cynnar iddo wedi i mi gychwyn yn fy swydd fel Ombwdsmon oedd ystyried a oedd angen adolygu Deddf OGCC, yn arbennig gan ei bod erbyn hyn yn ddeg oed. Cymerais fantais o fy nghyfnod 'cynefino' fel Ombwdsmon i sefydlu beth oedd arferion gorau ymysg cyd ombwdsmyn, yn arbennig yn y DU ond hefyd y tu hwnt i hynny. Ar ôl ystyried yr hyn a welais, er bod Deddf OGCC yn parhau i ennill parch y gymuned ombwdsmyn, penderfynais fod yna berygl y byddai Cymru yn cael ei gadael ar ôl mewn perthynas â datblygiadau oedd yn digwydd mewn gwledydd eraill. Hefyd, rwyf yn credu bod angen sicrhau bod y Ddeddf yn barod i'r dyfodol er mwyn fy ngalluogi i a fy olynyddion i ymateb i'r heriau yr ydym yn gwybod fydd yn wynebu Cymru gyda chymdeithas fydd yn heneiddio yn y dyfodol.

Felly, gan adeiladu ar waith yr Ombwdsmon blaenorol, Peter Tyndall, bu i mi gyflwyno nifer o gynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â meysydd ble'r oeddwn yn credu y gellid ymestyn ac atgyfnerthu'r Ddeddf bresennol. Roeddwn yn eithriadol falch bod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roeddwn yn hapus iawn bod cymaint o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid wedi rhoi eu hamser ac wedi mynd i'r drafferth i ddarparu tystiolaeth. Roedd hyn yn amrywio o gyrff yn yr awdurdodaeth a'u sefydliadau cynrychioliadol, Comisiynwyr Cymru, yn ogystal â chyd Ombwdsmyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac arbenigwyr academaidd yn y maes. Wrth i mi ysgrifennu hyn, rydym yn disgwyl penderfyniad y Pwyllgor Cyllid ynghylch a ddylid argymell cyflwyno Bil mewn perthynas â phwerau OGCC.

## Diolch

Yn olaf, hoffwn ddiolch i staff fy swyddfa. Nid yw trawsnewid yn hawdd, ond mae eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad o'r radd flaenaf.



Nick Bennett
Ombwdsmon

# 2. Fy Rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; a'r ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu yn wasanaeth am ddim.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, yn gyffredinol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus y mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r cyrff a noddir ganddi.

Ers 1 Tachwedd 2014, rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat.

Wrth ystyried cwynion, rwyf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu a ydynt wedi derbyn gwasanaeth gwael o ganlyniad i fai ar ran darparwr y gwasanaeth. Bydd sylw hefyd yn cael ei roi i p'un a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisïau ei hun. Os bydd cwyn yn un ddilys, byddaf yn argymell camau unioni priodol. Y prif ddull a ddefnyddir wrth argymell camau unioni, pan fo'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi dioddef yr anghyfiawnder) yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r broblem wedi codi. Hefyd, os byddaf yn gweld tystiolaeth o wendid systematig yn ystod fy ymchwiliad, bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno er mwyn lleihau'r tebygolrwydd yr effeithir ar eraill yn yr un modd yn y dyfodol.

## Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000, a Gorchmynion perthnasol a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau o:

- gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parciau cenedlaethol a
- phanelau heddlu a throseddu.

Mae gan yr holl awdurdodau hyn god ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid i'r aelodau ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus.

Os bydd cynghorydd sir yn dymuno cwyno am gynghorydd sir arall yn ei awdurdod ei hun, byddaf yn disgwyl iddo gyflwyno'i gŵyn i Swyddog Monitro'r awdurdod hwnnw i ddechrau, oherwydd efallai ei bod yn bosibl datrys y mater yn lleol heb fy nghynnwys i.

## Gweledigaeth, Gwerthoedd ac Amcanion Strategol

**Nod Strategol 1:**
Cynnig gwasanaeth sy'n rhoi lle blaenllaw i ofal cwsmeriaid ardderchog ym mhopeth a wnawn, lle rydym yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth a lle rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio.

**Nod Strategol 2:**
Darparu gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ymdrin â chwynion, sy'n ystyried ac yn dod i benderfyniad ynghylch cwynion mewn modd trylwyr ond cymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir.

**Gwerthoedd**

Hygyrchedd
Tegwch
Bod yn gyflogwr da
Dysgu
Effeithiolrwydd

**Gweledigaeth**
I unioni pethau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaethau hynny ac o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cwynion rydym yn eu hystyried

**Nod Strategol 4:**
Parhau i ddadansoddi a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd o ran llywodraethu, prosesau busnes a swyddogaethau cymorth, er mwyn bod yn fwy tryloyw a sicrhau y defnyddir yr arian cyhoeddus sydd yn ein gofal yn y ffordd orau bosibl.

**Nod Strategol 3:**
Defnyddio'r wybodaeth a gawsom o'n hymchwiliadau i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gwell ac i weithredu fel sail ar gyfer polisi cyhoeddus.

## 3. Y Gwasanaeth Cwynion

**3,470**
Ymholiadau
cynnydd **7%** ar 2013/14

Cyfanswm Cwynion
**2,296**
cynnydd **6%** ar 2013/14

### **Cwynion** am **gyrff cyhoeddus**

**2,065** o Gwynion
**cynnydd 7%** ar 2013/14

**938**
**Cwyn am Gynghorau Sir**
cynnydd **5%**

**769**
**Cwyn am y GIG**
cynnydd **1%**

Mae'r rhain yn cyfrif am **83%** o'r holl gwynion am Gyrff Cyhoeddus

### **Cod Ymddygiad**

**231** o Gwynion
**cynnydd 1%** ar 2013/14

**125**
Cwyn am **Gynghorwyr Sir**
cynydd **13%**

**106**
Cwyn am **Gynghorwyr Cymuned**
gostyngiad **8%**

Mae'r rhain yn cyfrif am **100%** o'r holl gwynion Cod Ymddygiad

## Canlyniadau cwynion am Gyrff Cyhoeddus 2014/15

Cyfanswm yr achosion a gaewyd: **2,015**

**428** achos wedi'u cymryd ymlaen

**82%**

**349** o gwynion a chadarnhawyd/ cadarnhawyd yn rhannol

**12** o'r rhain o **fudd cyhoeddus**

## Canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad 2014/15

Cyfanswm yr achosion a gaewyd: **239**

**34** o achosion yr ymchwiliwyd iddynt

**17** Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri

**8** Dim angen gweithredu


**1** Cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru

**8** Cyfeiriad at bwyllgor safonau

## Y Llwyth Achosion – Trosolwg

Mae Adroddiadau Blynyddol blynyddoedd blaenorol wedi tynnu sylw at y cynnydd yn y nifer o ymholiadau a chwynion i'r swyddfa hon. Gwelodd y flwyddyn 2014/15 y duedd honno yn parhau. Bu cynnydd o 7% yn yr holl gysylltiadau (hynny yw, ymholiadau, cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol) a chan taflu golwg yn ôl dros y bum mlynedd diwethaf, bu yna gynnydd o 104%.

**Holl Ymholiadau a Chwynion a dderbyniwyd fesul blwyddyn**




## Ymholiadau

Fe wnaeth y swyddfa'n ymdrin â 3,470 o ymholiadau yn ystod 2014/15, o'i gymharu â 3,234 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 7%.

Ymholiadau yw cysylltiadau gan achwynwyr posibl sy'n holi am y gwasanaeth a ddarperir ac nad yw, yn y diwedd, yn arwain at wneud cwyn ffurfiol i mi. Ar adeg y cysylltiad cyntaf hwn, byddwn yn gweithredu mewn un o sawl ffordd, gan gynnwys:

- cynghori pobl sut i gyflwyno cwyn i mi os nad yw pobl wedi gwneud cwyn i'r corff cyhoeddus perthnasol eto, byddwn yn eu cynghori'n briodol, gan anfon eu cwyn yn uniongyrchol at y corff hwnnw ar eu rhan os mai dyna yw eu dymuniad
- os yw'r mater y tu allan i fy awdurdodaeth, byddwn yn cyfeirio'r ymholwr at y sefydliad priodol a all eu helpu
- mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion hefyd, pan fydd hynny'n briodol, yn ymdrechu i ddatrys problem yn ystod y cam ymholiad heb fynd â'r mater ymlaen i gam cwyn ffurfiol.

Rydym yn falch ein bod yn gallu darparu gwasanaeth prydlon ar y rheng flaen er gwaetha'r ffaith bod y cynnydd yn nifer yr ymholiadau yn parhau i godi. Fe wnaethom osod targed i ateb galwadau i brif linell y dderbynfa o fewn 30 eiliad mewn 95% o achosion. Cafwyd 6,307 o alwadau o'r fath i'r swyddfa yn ystod 2014/15, ac atebwyd 99% o'r rhain o fewn yr amser hwnnw, sydd yn amlwg yn well na'r targed y gwnaethom osod i ni ein hunain.

## Cwynion am gyrff cyhoeddus

Mae nifer y cwynion am gyrff cyhoeddus rwyf yn eu derbyn yn dal i gynyddu. Fe wnaethom dderbyn 2,065 o'r fath gwynion yn 2015/16, o'i gymharu â 1,932 yn 2013/14 (cynnydd o 7%).


### Dadansoddiad o gwynion yn ôl sector

Mae cynghorau sir wastod wedi cynhyrchu'r nifer mwyaf o gwynion i'r swyddfa hon. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir ganddynt. Dros nifer o flynyddoedd yr oedd lefel y cwynion a gafwyd am gynghorau sir wedi bod yn weddol gyson, fodd bynnag mae'r dwy flynedd diwethaf wedi gweld cynnydd. Yn benodol, bu cynnydd o 5% ar y sefyllfa ddiwedd 2013/14.

Mae'r cynnydd mewn cwynion am gyrff y gwasanaeth iechyd yn parhau. Bu cynnydd o 1% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (769 o gwynion o'i gymharu â 759 yn 2013/14).

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad y cwynion a dderbyniwyd fesul sector.


#### Cwynion yn ôl sectorau cyrff cyhoeddus




### Cwynion am gyrff cyhoeddus yn ôl testun

Fel y gwelir o'r siart isod, mae cwynion iechyd yn cyfrif am 34% o'r llwyth achosion, o'i gymharu â 36% yn 2013/14. Mae'r gostyngiad bychan iawn hwn yn y gymhareb yn ganlyniad cynnydd mewn mathau eraill o gwynion a gafwyd yn hytrach na gostyngiad yn nifer y cwynion iechyd a gafwyd (fel sydd wedi'i gadarnhau uchod). Fel y gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tai (15%) a chynllunio (12%) yw'r meysydd gwasanaeth sydd wedi cyfrif am y nifer mwyaf o gwynion a gafwyd ar ôl cwynion am iechyd.

### Cwynion yn ôl testun 2014/15




[Sylwer: Mae cwynion wedi'u categoreiddio'n ôl prif faes testun y gŵyn. Fodd bynnag, gall cwynion hefyd gynnwys meysydd eraill mae'r achwynydd yn anfodlon â hwy – er enghraifft, gall cwyn 'Iechyd' hefyd gynnwys cwyn am 'Trafod Cwynion'.]

## Canlyniadau cwynion a ystyriwyd

Fe wnaethom gau 2,015 o gwynion yn ystod 2014/15, o'i gymharu a 1,926 yn ystod 2013/14 (cynnydd o 5%). Ceir crynodeb cyffredinol o ganlyniad yr achosion a gaewyd yn y tabl isod, a cheir dadansoddiad o ganlyniad y cwynion a ystyriwyd fesul awdurdod rhestredig yn ystod 2014/15 yn Atodiad B.

Rwy'n falch dros ben ein bod wedi llwyddo i gau'r lefel hyn o achosion yn ystod y flwyddyn ac ein bod yn parhau i gadw i fyny gyda'r nifer o cwynion i'r swyddfa. Tra roedd nifer y cwynion mewn llaw ar ddiwedd 2014/15 yn 446, o'i gymharu â 393 ar ddiwedd 2013/14 rwy'n parhau yn fodlon fod llwyth achosion o'r nifer yma mewn llaw ar unrhyw un adeg yn rhesymol ac nid wyf yn ystyried hyn i fod yn olgroniad.

| **Cwyn am Gorff Cyhoeddus** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|
| Caewyd yr achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol* | 1,564 | 1,402 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 23 | 47 |
| Cafodd y gŵyn ei setlo'n wirfoddol (gan gynnwys "ateb sydyn" mewn 127 o achosion) | 164 | 214 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 8 | 18 |
| Ymchwiliad: ni chafodd y gŵyn ei chadarnhau | 71 | 63 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llawn neu'n rhannol | 173 | 173 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llawn neu'n rhannol – adroddiad budd cyhoeddus | 12 | 9 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – Cwynion** | **2,015** | **1,926** |


[* Mae achosion a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol' yn cynnwys rhai a dderbyniwyd:

- tu allan i fy awdurdodaeth
- yn rhy gynnar (hynny yw, nad oedd yr achwynydd wedi cwyno at y darparwr gwasanaeth yn gyntaf, gan rhoi'r cyfle iddynt i wneud pethau'n iawn)
- nad oedd yn darparu tystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant o ran y gwasanaeth
- nad oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth o galedi neu anghyfiawnder a ddioddefwyd gan yr achwynydd.
- na fyddid yn llwyddo i gyflawni llawer mwy drwy barhau i ddilyn y mater (er enghraifft, efallai bod corff cyhoeddus eisoes wedi cydnabod ei fod wedi darparu gwasanaeth gwael ac wedi ymddiheuro).]

## Cyfnodau penderfynu


### Yr amser a gymerwyd i hybysu achwynwyr a fyddaf yn trafod y gŵyn

Mewn perthynas â chwynion am gyrff cyhoeddus, fe wnaethom hysbysu 93% o achwynwyr o fewn 4 wythnos a fyddaf yn ymchwilio i'w cwyn (o'r dyddiad pan gafwyd digon o wybodaeth). Mae hyn yn well na'r targed o 90% y gwnaethom osod i'n hunain. Ceir fwy o fanylion ar yr amseroedd hyn yn y siart isod.



### Amserodd Ymchwilio

Gwnaethom gwblhau 99% o ymchwiliadau o fewn 12 mis, yn erbyn y targed o 100% y gwnaethom osod i'n hunain. Roedd dau achos a aeth dros 12 mis. Roedd y ddau o'r rhain yn cynnwys heriau cryf gan rheiny yn ymwneud â'r ymchwiliad. Arweiniodd hyn at yr angen am gyngor clinigol pellach yn yr achos cyntaf, ac adolygiad mewnol o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ail cyn inni fedru cwblhau'r ymchwiliad. Mae'r siart isod yn rhoi manylion pellach ar y cyfnodau amser a gymerwyd i gwblhau ymchwiliadau sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus.




## Cwynion Cod Ymddygiad


### Cwynion a dderbyniwyd

Yn gyffredinol, roedd y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (231 yn 2014/15 o'i gymharu â 228 yn 2013/14). Fodd bynnag, gwelodd y flwyddyn ddiwethaf gynnydd yn nifer y cwynion am aelodau o gynghorau sir neu fwrdeistref sirol, tra disgynnodd nifer y cwynion yn ymwneud ag aelodau o gynghorau cymuned. Gellir gweld hyn yn y tabl isod.

| | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned | 106 | 115 |
| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | 125 | 111 |
| Awdurdod Tân | 0 | 2 |
| Parc Cenedlaethol | 0 | 0 |
| Panel Heddlu a Throsedd | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **231** | **228** |

## Natur cwynion Cod Ymddygiad

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif y cwynion a gafwyd yn ystod 2014/15 yn ymwneud â materion 'cydraddoldeb a pharch'. Yn 2014/15 dyma oedd sail 35% o'r cwynion cod ymddygiad a gafwyd o'i gymharu â 36% yn 2013/14. Roedd y meysydd eraill mwyaf niferus yn ymwneud â datgelu a chofrestru budd (22%), a gonestrwydd (16%).




[Noder: er yn dangos '0%' roedd yna 1 gŵyn yn ymwneud â 'Anhunandoleb a stiwardiaeth'.]

## Canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad

O'r 239 o achosion Cod Ymddygiad a gaewyd yn 2014/15, caewyd y mwyafrif o dan y categori a ddangosir isod fel 'Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol'. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau megis:

- nid oedd tystiolaeth olwg gyntaf bod y Cod wedi'i dorri
- nid oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad (ac yn annhebygol o arwain at sancsiwn)
- roedd y digwyddiad a oedd wrth wraidd y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod).

Cyfeiriwyd nifer uwch o adroddiadau ymchwilio naill ai at bwyllgor safonau'r awdurdod lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru yn 2014/15 (9 o gwynion) o gymharu â 2013/14 (6 cwyn). Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r cyrff hyn yw hi i ystyried y dystiolaeth a gafwyd, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a roddir gerbron gan yr aelod dan sylw. Yna iddynt hwy yw penderfynu a yw toriad wedi digwydd ac, os felly, pa gosb, os o gwbl, y dylid ei gosod.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod:

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 178 | 176 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 7 | 12 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 20 | 8 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim tystiolaeth o doriad | 17 | 10 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim angen gweithredu | 8 | 17 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at Bwyllgor Safonau | 8 | 5 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 1 | 1 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion Cod Ymddygiad** | **239** | **229** |

Yn awr, disgwylir i gynghorwyr sir i wneud eu cwynion am gynghorwyr eraill o fewn eu hawdurdod i'w swyddog monitro. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gael cwynion 'lefel isel' o'r math hwn yn cyrraedd fy swyddfa. Gall y rhain, er enghraifft, fod yn honiadau o fethiannau i ddangos parch ac ystyriaeth o eraill o dan baragraff 4(b) y cod. Rydym wedi adolygu ein harfer wrth ddelio â'r cwynion o'r math hwn sy'n dod i fy swyddfa, a byddwn yn cymryd sefyllfa gadarnach yn y dyfodol wrth gyfeirio y cwynion 'lefel isel' yn ôl i swyddogion monitro i gael eu trin yn lleol.

Ceir dadansoddiad manwl o'r canlyniadau i gwynion Cod Ymarfer a ystyriwyd fesul awdurdod lleol yn ystod 2014/15 yn Atodiad C.


## Cyfnodau penderfynu

### Yr amser a gymerir i ddweud wrth yr achwynydd os byddaf yn trafod eu cwyn

O ran cwynion Cod Ymddygiad, rhoddwyd gwybod i 79% o achwynwyr o fewn 4 wythnos a fyddwn i yn trafod eu cwyn (o'r dyddiad bod digon o wybodaeth wedi'i dderbyn). Mae hyn yn is na'r targed o 90% y gwnaethom osod i'n hunain.


Fodd bynnag, yn wahanol i'r sefyllfa mewn perthynas â chwynion gorff cyhoeddus, er nad yn rhaid iddynt, gall aelodau (ac yn aml maent yn gwneud) roi sylwadau ar y gŵyn yn eu herbyn pan fyddant wedi cael gwybod am y gŵyn. Tra felly y gall gymryd mwy o amser i benderfynu p'un ai i gychwyn ymchwiliad, rwyf o'r farn ei bod yn decach i ni gymryd i ystyriaeth yr hyn sydd gan aelod i'w ddweud cyn gwneud penderfyniad. Mae hyn oherwydd bod cychwyniad ymchwiliad ffurfiol yn erbyn aelod yn fater streslyd a difrifol i'r aelod sy'n destun y gŵyn. Serch hynny, byddaf yn gweithio yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynghori yr achwynydd a'r aelod cyhuddedig ill dau yn brydlon ynghylch a fyddwn yn cymryd y mater i mewn ymchwiliad neu beidio.

Mae rhagor o fanylion ar amseroedd penderfynu yn cael eu dangos trosodd.




## Amseroedd Ymchwilio

Mae'r sefyllfa ar gyfer cwblhau ymchwiliadau cod ymddygiad yn un cadarnhaol. Yr wyf yn falch ein bod dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llwyddo i gyrraedd ein targed 100% ar gyfer cwblhau ymchwiliadau o fewn 12 mis, fel y gwelir yn y siart isod.



# 4. Gwella Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Rwyf yn rhoi pwys mawr ar ddefnyddio'r wybodaeth a'r hyn a ddysgir drwy waith achos fy swyddfa er mwyn gwella darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac er mwyn hysbysu polisi cyhoeddus. Mae yna nifer o yrwyr allweddol sefydledig yn gysylltiedig â hyn:

- **Adroddiadau ar les y cyhoedd - cyhoeddwyd 12 yn 2014/15:** Ceir crynodebau o'r cwynion hyn ynghyd â chanfyddiadau a chanlyniadau yn Atodiad A, tra bod adroddiadau llawn ar gael ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk.
- **Coflyfr yr Ombwdsmon, a gyhoeddir yn chwarterol:** Y materion allweddol yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2014/15 oedd -
  - methiannau ar ran awdurdodau lleol i gydnabod eu dyletswyddau mewn perthynas â digartrefedd a'r ffordd a ymdriniwyd â cheisiadau am dai
  - darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chynnal ymchwiliadau digon cadarn, a hynny'n anghyson â mantra 'ymchwilio unwaith; ymchwilio'n dda', yn ogystal â darparwyr gwasanaethau yn methu cyfleoedd i ddatrys materion eu hunain yn gynnar.
- **Coflyfr Cod Ymddygiad:** Llynedd adroddwyd bod Coflyfr Cod Ymarfer wedi'i gyflwyno ddwywaith y flwyddyn drwy gais swyddogion monitro awdurdodau lleol. Bu ymateb da i hyn, ond gwnaethpwyd cais yn ystod y flwyddyn i hwn gael ei gynhyrchu'n chwarterol yn hytrach na bob chwe mis. Felly, bydd argraffiadau chwarterol yn ymddangos yn 2015/2016. Fodd bynnag, o ganlyniad i nifer isel yr achosion sydd ar gael mewn argraffiadau chwarterol, bydd adran sylwebaeth/gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynhyrchu mewn 'compendiwm blynyddol' diwedd blwyddyn yn unig.
- **Llythyrau blynyddol - cynghorau sir a byrddau iechyd:** Caiff y rhain eu cyhoeddi ar fy ngwefan ac maent yn darparu manylion mewn perthynas â'r cyrff unigol a chymariaethau yn erbyn sefydliadau eraill yn yr un sector yn ogystal â manylion yn seiliedig ar Gymru gyfan. Maent hefyd yn cael eu defnyddio fel sail i drafodaethau gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr byrddau iechyd lleol unigol. Mae awdurdodau iechyd lleol hefyd yn cael gwahoddiad i drefnu cyfarfod i drafod eu Llythyr Blynyddol penodol os dymunant wneud hynny.

Yn ogystal â'r uchod, ar ddiwedd mis Mawrth 2015 cyhoeddwyd argraffiad adolygedig o **Ganllawiau ar God Ymarfer ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol**, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2010. Un newid allweddol a gyflwynwyd yw 'prawf lles y cyhoedd' y byddaf nawr yn ei gymhwyso wrth ystyried a ddylid ymchwilio i gwyn neu beidio. Rwyf wedi cyflwyno'r prawf hwn o ganlyniad i'r nifer uchel o gwynion distadl yr wyf yn eu derbyn yn fy swyddfa, ac er mwyn egluro'r meini prawf y byddaf yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylid ymchwilio i gwyn neu beidio. Bydd y prawf yn sicrhau y byddaf yn parhau i ymchwilio i gwynion difrifol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus. Mae'r newidiadau eraill a gyflwynwyd i'r ddogfen yn cynnwys mwy o ganllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol, yn ogystal â siart llif a ddyluniwyd i ddarparu cymorth i aelodau ynglŷn â materion yn ymwneud â buddiant. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y cwynion cod ymddygiad a dderbynnir gan fy swyddfa. Gellir gweld fersiwn adolygedig o'r Canllawiau ar fy ngwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Rwyf hefyd wedi ystyried sut y gallaf weithio â sefydliadau perthnasol eraill. Mae enghreifftiau o weithgareddau yn ystod 2014/15 yn cynnwys:

- **Y Comisiynydd Gwybodaeth**

Rwyf yn falch iawn o fod wedi gallu gweithio â'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth adolygu Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda OGCC. Wrth i mi ysgrifennu, mae'r ddogfen adolygedig yn destun ymgynghoriad, ond y bwriad yw cyflwyno dwy egwyddor newydd mewn perthynas â Rheoli Cofnodion Da a chyhoeddi'r fersiwn adolygedig fel cyd gyhoeddiad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

- **Comisiynwyr yng Nghymru**

Rwyf wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r Comisiynwyr yng Nghymru er mwyn trafod materion sydd o ddiddordeb ac sy'n achosi pryder i bob un ohonom. Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd o atgyfnerthu gwaith ein gilydd er lles gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn nesaf rwyf yn bwriadu ystyried y prinder ymddangosiadol o ran y cwynion am ofal cymdeithasol yr wyf yn eu derbyn, o ystyried canlyniadau "Lle i Alw'n Gartref?: Adroddiad ar Adolygiad o Gartrefi Gofal" y Comisiynydd Pobl Hŷn. Hefyd, roeddwn yn hynod falch o gael y cyfle i annerch mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn 2014, a finnau ond wedi bod yn y swydd fel Ombwdsmon am wythnos. Roeddwn hefyd yn ddiolchgar i'r Comisiynwyr am eu cefnogaeth i'r cynigion am ddeddfwriaeth newydd, ac fe'm calonogwyd wrth sylweddoli y gallai ein swyddfeydd weithio'n dda gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliadau ar liwt ein hunain, petai'r Cynulliad yn caniatáu'r pŵer hwn i'r Ombwdsmon.

- **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MCDd) gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

Er bod AGGCC yn gorff sy'n rhan o fy awdurdodaeth, roeddwn yn ystyried y byddai'n briodol sefydlu MCDd gyda'r AGGCC o ystyried ei rôl fel rheoleiddiwr. Llofnodwyd y MCDd ar 14 Rhagfyr 2014 ac roedd yn hynod amserol o ystyried yr estyniad diweddar i fy awdurdodaeth ar 1 Tachwedd 2014 fel fy mod yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir y breifat.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddaf yn bwriadu archwilio sut all gwaith fy swyddfa fod yn fwy effeithiol yn y dyfodol mewn perthynas â dylanwadu ar welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ac o ran hysbysu polisi cyhoeddus, ac rwyf yn edrych ymlaen at allu adrodd ar ddatblygiadau yn y maes hwn y flwyddyn nesaf.

# 5. Trefn Lywodraethu ac Atebolrwydd

## Yr Ombwdsmon

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn sefydlu bod swydd Ombwdsmon yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fecanwaith adroddiad blynyddol, ac fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried yn yr Ombwdsmon i'w defnyddio i ymgymryd â'i swyddogaethau.

Yn ystod 2014/15, bu i mi ymddangos gerbron tri o Bwyllgorau'r Cynulliad, sef y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (i drafod Cyfrifon Blynyddol 2013/14); y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (i drafod Adroddiad Blynyddol 2013/14); a'r Pwyllgor Cyllid (i drafod fy amcan gyllideb ar gyfer 2014/15). Roeddwn yn croesawu'r cyfle ym mhob achlysur i drafod sut yr oeddwn ac y buaswn yn gwario'r arian cyhoeddus a dderbynnir gennyf, a'r gwasanaeth a ddarperir gan fy swyddfa.

## Panel Cynghori a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gan gadw sefyllfa gyfansoddiadol corfforaeth undyn mewn cof, mae gennyf Banel Cynghori sy'n darparu her a chefnogaeth i mi fel Ombwdsmon. Ceir hefyd Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, is-bwyllgor y Panel, sy'n darparu cefnogaeth benodol i mi mewn perthynas â fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Bydd gwaith y fora hyn dros y flwyddyn ddiwethaf yn cael ei ymdrin yn fanylach fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu fy Nghyfrifon Blynyddol ar gyfer 2014/15; disgwylaf y bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst 2015. Fodd bynnag, yn dilyn proses recriwtio agored, rwyf yn manteisio ar y cyfle hwn i nodi fy mod yn falch bod Mrs Sharon Warnes, cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr/Uwch Reolwraig Polisi a Pherfformiad Cyngor Gwynedd, wedi'i phenodi ar y Panel Cynghori (yn dilyn ymddiswyddiad Mr Ceri Stradling ar ddiwedd 2013/14). Mae Mrs Warnes hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Y Tîm Rheoli

Er fy mod fel Ombwdsmon yn llwyr gyfrifol am benderfyniadau a gwaith fy swyddfa, mae'r Tîm Rheoli yn grŵp ffurfiol sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i mi. Mae'n derbyn cyfrifoldeb penodol am gynghori ar ddatblygiad y Cynllun Strategol tair blynedd a'r Cynllun Busnes blynyddol; gofynion cyllidol blynyddol; sicrhau'r defnydd gorau o'r arian cyhoeddus a dderbynnir; a fframwaith monitro perfformiad priodol.

Mae hefyd yn gyfrifol am gyflawni a monitro amcanion strategol; monitro perfformiad misol yn erbyn amcanion; sicrhau y dynodir ac yr ymdrinnir â risgiau yn weithredol; cytuno ar bolisïau corfforaethol (e.e. gweithdrefnau delio â chwynion, polisïau adnoddau dynol) a monitro eu heffeithiolrwydd; a datblygu strategaeth allgymorth y swyddfa a monitro sut mae'n cael ei weithredu.

## Cynllun Strategol Tair Blynedd a Chynllun Busnes

Y flwyddyn ddiwethaf oedd y flwyddyn olaf mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Strategol a ddatblygwyd ar gyfer 2012/13 i 2014/15 ac mae nifer o'r gweithgareddau a'r llwyddiannau wedi cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Gellir gweld y weledigaeth, gwerthoedd, pwrpas a'r amcanion strategol ar gyfer gwasanaeth OGCC yn nudalen 9.

Yn ystod y flwyddyn penderfynais gynhyrchu Cynllun Strategol un mlynedd ar gyfer 2015/16 sydd yn fwriadol yn barhad o'r Cynllun Strategol Tair Blynedd blaenorol, oherwydd rwyf yn credu bod y weledigaeth yn parhau i fod mor berthnasol a phriodol ag erioed, yn arbennig o ystyried y cyd-destun polisi cyhoeddus presennol. Ystyriaeth allweddol arall wrth benderfynu parhau â'r Cynllun Strategol tair blynedd blaenorol am flwyddyn arall oedd y gobeithid y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i foderneiddio Deddf OGCC. Roedd hi'n ymddangos yn fwy priodol i'r swyddfa ddatblygu Cynllun Strategol Tair Blynedd newydd pan fyddai sefyllfa'r newidiadau posibl hyn i'r ddeddfwriaeth ynghylch yr Ombwdsmon yn hysbys.

## Cyfarwyddeb Ewropeaidd ar Ddull Amgen o Ddatrys Anghydfod

Yn dilyn cyhoeddi Cyfarwyddeb Ewropeaidd ar Ddull Amgen o Ddatrys Anghydfod, cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau Defnyddwyr (Awdurdodau Cymwys a Gwybodaeth) 2015 gerbron y Senedd ar 17 Mawrth 2015. Mae'r trefniadau newydd yma mewn perthynas ag anghydfodau rhwng defnyddwyr a masnachwyr yn effeithio ar awdurdodaeth OGCC mewn perthynas â chwynion am ddarparwyr gofal annibynnol.

Er bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi deddfu bod gan bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain hawl i gwyno i'r Ombwdsmon, bydd Cyfarwyddeb yr UE/Rheoliadau'r DU yn golygu, oni bai bod OGCC yn gwneud cais (am gost) i fod yn 'Endid Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod', y bydd Llywodraeth y DU hefyd yn penodi endid DADdA arall fydd ar gael i ystyried cwynion o'r fath. Er hynny, nid yw Cyfarwyddeb DADdA yr UE na Rheoliadau Llywodraeth y DU yn nodi bod DADdA yn orfodol i fusnesau mewn meysydd ble nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, felly bydd y rhan fwyaf o fusnesau yn gallu parhau i ddewis defnyddio endid DADdA arall neu beidio. Hefyd, nid oes amheuaeth y byddent yn gorfod talu er mwyn cofrestru â darparwr DADdA arall. Mae hyn yn golygu mai'r unig hawl statudol fydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, mewn perthynas â chael ystyriaeth annibynnol ynglŷn â'u cwyn am ddarparwr gofal annibynnol, fydd drwy'r Ombwdsmon.

Mae yna nifer o faterion sydd angen eu hystyried ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnwys cwestiynau ynghylch cyfrifolaeth, a sefyllfa'r Ombwdsmon mewn perthynas ag atebolrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac annibyniaeth mewn perthynas ag adrodd i Awdurdod Cymwys penodedig Llywodraeth y DU - y Sefydliad Safonau Masnach, sefydliad sydd yn ei hanfod yn 'sefydliad i aelodau masnachol'. Mater arall i'w ystyried yw bod darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol yn sefydliadau gaiff eu rheoleiddio gan AGGCC. Wrth i mi ysgrifennu hyn, rwyf yn dal i ystyried a yw hi'n briodol i OGCC wneud cais i fod yn endid DADdA.

# 6. Gweithgareddau Eraill

## Perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru



Yn croesawu'r Llywydd i'n swyddfa

Rwyf yn falch gyda'r datblygiad a fu yn y berthynas rhwng fy swyddfa i â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roeddwn yn falch o gael cyfarfod â'r Fonesig Rosemary Butler, Llywydd y Cynulliad, yn ystod y dyddiau cynnar yn dilyn fy mhenodi ac o allu trafod fy mlaenoriaethau cychwynnol fel Ombwdsmon. Roeddwn hefyd yn falch iawn o groesawu'r Llywydd i fy swyddfa ym mis Ionawr 2015 pan dreuliodd y Fonesig Rosemary amser yn cyfarfod ag aelodau unigol fy staff. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr.

Rwyf yn cyfeirio mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn at fy nghysylltiad â'r Cynulliad mewn perthynas â'r ymchwiliad i bwerau'r Ombwdsmon. Rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn i Mrs Jocelyn Davies, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a holl aelodau'r Pwyllgor Cyllid am gytuno i gynnal yr ymchwiliad hwn ac am fod yn barod i ystyried argymhell cyflwyno Bil dan arweiniad y Pwyllgor mewn perthynas â hyn. Rwyf yn gwybod bod fy swyddogion innau hefyd yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad a dderbyniwyd gan staff y Cynulliad mewn perthynas â hyn.

Roeddwn hefyd yn falch o allu cynnig sesiwn hyfforddi i Aelodau'r Cynulliad a'u staff fel rhan o'r cynllun datblygu proffesiynol, pryd yr oeddem yn gallu trafod gwaith fy swyddfa a hynny wedi'i deilwra er mwyn eu cynorthwyo i allu rhoi gwell cyngor i'w hetholwyr ynglŷn â'r hyn yr wyf fi, fel Ombwdsmon, yn gallu a ddim yn gallu ei wneud.

## Allgymorth

Mae rhanddeiliaid y swydd yn niferus, ac yn cynnwys:

- aelodau'r cyhoedd (h.y. defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus)

- cyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth

- aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- sefydliadau gwirfoddol (yn arbennig y rhai sy'n cynnig gwasanaeth eirioli)

- y cyfryngau.

Rydym wedi parhau â'n hymdrechion i helpu pobl wybod ym mhle a sut mae cwyno am wasanaeth cyhoeddus drwy wasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru, a ddarperir gan y Tîm Cynghori ynghylch Cwynion. Mae'r gwasanaeth ffôn a gwe annibynnol a diduedd hwn yn cyfeirio cwyn pobl at y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth y maent yn dymuno cwyno amdano, neu at y sefydliad annibynnol priodol sy'n delio a chwynion neu'r ombwdsmon. Bu i hyrwyddo'r gwasanaeth barhau yn ystod 2014/15 drwy ymgyrch hysbysebu ar y radio.

Mewn perthynas â chyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth, yn ychwanegol at y cyfarfodydd a gynhaliwyd â chyrff unigol, yn ystod Ionawr 2015 bu i mi gynnal seminarau rhanbarthol a anelwyd at brif weithredwyr ac ymarferwyr delio â chwynion, ble ymdriniwyd â mater arferion da mewn perthynas â delio â chwynion a chadw cofnodion. Roeddwn yn ddiolchgar i nifer o ymarferwyr delio â chwynion o gyrff sy'n rhan o'r awdurdodaeth am siarad am eu profiadau yn ystod y sesiynau hyn. Roeddwn yn hynod falch bod dros 200 o bobl wedi mynychu'r sesiynau o bob sector yn fy awdurdodaeth.



Cynrychiolwyr yn mynychu'r seminar yng Nghasnewydd

Bu i ni barhau i ymgysylltu â sefydliadau gwirfoddol. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu i ni siarad gyda neu gynnal cyfarfodydd gydag Oxfam Cymru, Diverse Cymru, Grŵp Rheolwyr Undebau Credyd Cymru Gyfan, Shelter Cymru, Age Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Clefyd Niwronau Motor. Bu i ni hefyd gynnal cyfarfodydd â, neu siarad mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan, gyrff proffesiynol a chynrychioliadol y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, proffesiynau ym maes y gyfraith a nyrsio; Un Llais Cymru).

Bu i berthynas bositif â'r cyfryngau barhau. Yn gyffredinol roedd y sylw a roddodd y cyfryngau i waith y swyddfa yn deillio o'r adroddiadau lles y cyhoedd a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn falch o allu cyfarfod â staff newyddion a materion cyfoes y BBC yn ystod y flwyddyn. Defnyddiol iawn fu gallu trafod ffiniau'r hyn yr wyf yn gallu rhoi sylwadau arnynt fel Ombwdsmon, a beth sy'n bosibl ac nad yw'n bosibl ei gyflwyno i'r cyhoedd o ganlyniad i waith cyfrinachol fy ymchwiliadau.

## Ymchwil i fodlonrwydd achwynwyr

Rydym wedi parhau i gynnal arolwg o fodlonrwydd achwynwyr mewn perthynas â bodlonrwydd defnyddwyr ynglŷn â'n gwasanaeth cyswllt cyntaf. Roedd y canlyniadau ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:

| | **% yr ymatebwyr atebodd 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno'** |
|---|---|
| Roedd yn hawdd canfod sut i gysylltu ag Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus | 84% |
| Mae'r gwasanaeth yr wyf wedi ei dderbyn wedi bod yn werthfawr a sensitif | 75% |
| Roedd y staff yn gallu deall fy nghwyn / Roedd y person a ddeliodd â fy ymholiad yn gwybod digon er mwyn gallu ateb fy nghwestiwn | 73% |
| Cefais eglurhad clir ynghylch beth fyddai'n digwydd i fy ymholiad/cwyn | 80% |
| Mae'r gwasanaeth wedi darparu'r hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl. | 64% |

Unwaith eto bu lefel y bodlonrwydd yn dda iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, fel yn ystod y blynyddoedd blaenorol, effeithiwyd ar yr ymatebion i'r cwestiwn olaf gan benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ag ymchwilio i'w cwynion, er enghraifft, oherwydd nad yw'r person dan sylw wedi cwyno i'r sefydliad dan sylw neu oherwydd bod y mater y tu hwnt i awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Weithiau, mae pobl yn gwrthod ateb y cwestiwn hwn gan ddweud eu bod am aros am benderfyniad yr Ombwdsmon ynghylch eu cwyn.

Hefyd, mae'r data a gesglir o'r holiaduron a ddychwelir atom, sy'n cynnwys gwybodaeth am fodlonrwydd a chydraddoldeb, yn cael ei fewnbynnu i'n system delio â chwynion a'i gysylltu â'r cofnod o achos o gwyn perthnasol. Mae hyn wedi ein galluogi i ddadansoddi canlyniadau cwynion yn erbyn amrywiol grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Egin o hyd yw'r gwaith, ond rwyf yn falch nad oes dim awgrym hyd yma yn y dadansoddiad hwn bod yna unrhyw reswm i bryderu mewn perthynas ag unrhyw beth ynglŷn â'n prosesau neu ein dulliau ymchwilio sy'n creu anfantais i unrhyw grwpiau penodol o bobl. (Sylwer: mae'r data am fodlonrwydd cwsmeriaid a chydraddoldeb sydd ar ein systemau wedi ei neilltuo i gwpl o aelodau'r staff yn unig, ac nid oes gan unrhyw un sy'n delio â chwynion fynediad i'r manylion hyn).

## OGCC a Byd yr Ombwdsmon

### 9fed Seminar Rhanbarthol Rhwydwaith Ewropeaidd yr Ombwdsmyn

Bu i OGCC, ar y cyd â'r Ombwdsmon Ewropeaidd, gynnal seminar tri diwrnod llwyddiannus iawn ym mis Mehefin. Mynychodd nifer dda o ombwdsmyn o bob rhan o Ewrop y digwyddiad. Y thema oedd 'Llais i'r Di Lais' a bu'r sesiynau seminar yn berthnasol i'r holl gyfranogwyr, a bu iddynt ddarparu digon o ddeunydd i gnoi cil arno ymysg y cynrychiolwyr. Roedd hi'n ddifyr sylwi bod pob un ohonom yn wynebu heriau tebyg. Roedd hwn hefyd yn gyfle i arddangos Cymru i'r rhai oedd yn bresennol. Ar ran Margaret Griffiths, yn ogystal â fi fy hun, hoffwn ddiolch i'r Fonesig Rosemary Butler, Llywydd y Cynulliad, am lywyddu'r derbyniad croesawu yn y Senedd.




Emily O'Reilly, yr Ombwdsmon Ewropeaidd (yn sefyll) a Margaret Griffiths, yr Ombwdsmon Dros Dro, yn annerch y ddirprwyaeth Ewropeaidd

### Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol/Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

Ym mis Gorffennaf 2014 bu i Ombwdsmon Gogledd Iwerddon a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (CHDGI) gynhyrchu Llawlyfr Hawliau Dynol, sef pecyn i'w ddefnyddio gan staff ombwdsmyn er mwyn dynodi materion yn ymwneud â hawliau dynol wrth asesu ac ymchwilio i gwynion a chamweinyddu. Lansiwyd hyn ganddynt yng Nghynhadledd Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol y Byd yn Tallin. Mae Ombwdsmon Gogledd Iwerddon a CHDGI wedi ymrwymo i ddarparu pecyn hyfforddi er mwyn galluogi cynlluniau ombwdsmyn eraill i ddatblygu dulliau o ymchwilio i gamweinyddu sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Er bod fy swyddfa eisoes wedi mabwysiadu dull o'r fath i ryw raddau, rwyf yn falch bod trefniadau wedi'u gwneud er mwyn darparu hyfforddiant yn gysylltiedig â'r pecyn i fy staff yn gynnar yn 2015/16.

### Cymdeithas yr Ombwdsmyn

Mewn nifer o ffyrdd mae rôl yr Ombwdsmon yn unigryw. Er nad yw pob cynllun Ombwdsmon y union yr un fath â'i gilydd, ystyrir bod Cymdeithas yr Ombwdsmyn (CO) yn bwysig fel ffordd o rannu arferion gorau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o werthfawr o ystyried bod angen i gynlluniau Ombwdsmyn fod yn wrthrychol a chynnal pellter priodol oddi wrth y cyrff sy'n rhan o'u hawdurdodaeth. Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau CO, yn cynnwys cymryd rhan mewn nifer o'r Grwpiau Buddiant CO.

## Cwynion am wasanaeth OGCC

Gellir defnyddio'r weithdrefn 'Cwynion amdanom ni' os bydd unrhyw un yn anhapus ynglŷn â'n gwasanaeth. Er enghraifft, efallai y bydd achwynwr yn dymuno cwyno am oedi diangen o ran ymateb i ohebiaeth; neu'n teimlo bod aelod o staff wedi bod yn ddigywilydd neu'n ddiffygiol o ran cynnig help; neu nad ydym wedi gwneud yr hyn a addawyd. Mae yna weithdrefn ar wahân ar gyfer achwynwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ynglŷn â'u cwyn. Mae mwy o fanylion am y ddwy weithdrefn yma ar gael ar fy wefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae'r tabl isod yn adrodd am nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2014/15 a'r canlyniadau, yn ogystal â chymhariaeth â'r sefyllfa yn 2013/14.

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Cwynion a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 3 | 2 |
| Cwynion newydd a dderbyniwyd | 13 | 32 |
| **Cyfanswm y cwynion** | 7 | 12 |

| | | |
|---|---|---|
| **Canlyniadau** | | |
| Heb eu cefnogi (mater yn gysylltiedig â gwasanaeth) | 14 | 13 |
| Cefnogwyd yn llwyr neu'n rhannol | 12 | 7 |
| Yn gysylltiedig â phenderfyniad ymchwiliad - cyfeiriwyd at y broses ymchwilio | 44 | 17 |
| Tynnwyd y gwyn yn ôl neu wybodaeth annigonol | 14 | 7 |
| **Cyfanswm a gaewyd yn ystod y flwyddyn** | **84** | **44** |
| Cyfredol a chariwyd ymlaen ar 31 Mawrth | 1 | 3 |


Natur y cwynion a gefnogwyd/a gefnogwyd yn rhannol oedd:

| | |
|---|---|
| Oedi diangen wrth ymateb | 1 |
| Cod post anghywir wedi'i gadw ar ffeil | 1 |
| Gwybodaeth anghywir wedi'i darparu | 1 |
| Ddim yn ymateb i ohebiaeth | 1 |
| Ffurflenni cyfweliad a gorchuddion recordiadau CD ddim yn ddwyieithog | 1 |
| Gwall wrth gyflwyno ffurflen gwyno ar y wefan | 3 |
| Manylion anghywir wedi'u cadw ar ffeil / neu ohebiaeth wedi ei hanfon mewn camgymeriad | 4 |
| **Cyfanswm** | **12** |

Gweithredwyd y camau unioni canlynol;

- Rhoddwyd ymddiheuriad i'r achwynwr ym mhob un o'r 12 achos.
- Hysbyswyd y Rheolwyr Llinell perthnasol ynglŷn â'r cwynion a gefnogwyd oedd yn berthnasol i'w timau ar gyfer hyfforddiant a monitro yn y dyfodol.
- Cynhaliwyd hyfforddiant staff priodol a pherthnasol pan fo'r angen.
- Gweithredwyd camau priodol yn unol â pholisïau AD OGCC.
- Materion ynglŷn â TGCh e.e. Adroddwyd ar gyflwyniadau drwy'r wefan i'r darparwyr TG er mwyn eu datrys.
- Mae ffurflenni cyfweliad erbyn hyn ar gael yn ddwyieithog, ac mae trefniadau yn cael eu gwneud i ddefnyddio labeli CD dwyieithog cyn gynted â'u bod ar gael.

## Siart Sefydliadol (Sefyllfa ar 31 Mawrth 2015)



# 7. Materion Ynglŷn â Chydraddoldeb

Mae ymrwymiad i drin pobl yn deg yn rhan ganolog o rôl yr ombwdsmon. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd cyfartal i staff o ran y gwasanaeth a ddarperir i achwynwyr. Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd, aelod o staff neu berson sy'n derbyn gwasanaeth gan OGCC yn dioddef gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth o ganlyniad i nodweddion personol megis oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, p'un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil, neu ar sail unrhyw ystyriaeth amherthnasol arall. Disgwylir y bydd staff yn rhannu gwrthwynebiad llwyr yr Ombwdsmon i wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg a'r ymrwymiad i gynnal busnes mewn modd sy'n deg â phob aelod o'r gymdeithas.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan yr Ombwdsmon ddyletswydd i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion ynglŷn â chydraddoldeb. Cyhoeddwyd y Cynllun cyntaf o'r fath, sy'n cynnwys amcanion yr Ombwdsmon ynglŷn â chydraddoldeb, ar ddiwedd Mawrth 2012 gan gydymffurfio â'r gofyniad statudol i gyhoeddi cyn 2 Ebrill 2012. (Mae'r Cynllun ar gael ar y wefan: gweler www.ombwdsmon-cymru.org.uk). Hefyd o dan y dyletswyddau penodol, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gynhyrchu adroddiad blynyddol mewn perthynas â materion ynghylch cydraddoldeb. Fel y mynegwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae nifer o'n harferion wedi bod yn rhan annatod o'n dulliau ers creu'r swydd yn 2006. Felly pan fo'n berthnasol, bydd y rhain yn parhau i fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol ynglŷn â materion ynghylch cydraddoldeb, a nodir hynny isod.

### Hygyrchedd

Fel rhan o'n proses, rydym yn gwneud ein gorau glas i ddynodi, cyn gynted â phosibl, unrhyw ofynion unigol y bydd efallai angen eu hateb fel y gall defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad llawn i'n gwasanaethau ac, yn benodol, rydym yn gofyn i bobl ddweud wrthym pa ddull o gyfathrebu â ni sydd orau ganddynt. Rydym bob amser yn gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r rhain yn helpu pobl i gyflwyno eu cwyn i ni. Dyma enghreifftiau: darparu gohebiaeth mewn modd Hawdd ei Ddeall; defnyddio Llinell Iaith ar gyfer cyfieithu, pan nad yw achwynydd yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud cwyn mewn Cymraeg neu Saesneg; ennill arbenigedd er mwyn ein cynorthwyo i ddeall gofynion penodol achwynwyr â chyflyrau penodol, megis syndrom Asperger; ac ymweld ag achwynwyr yn eu cartrefi.

Rydym yn cynhyrchu dogfennau allweddol mewn fformatau gwahanol, megis CD/tâp a Braille, yn cyfieithu'r rhain i wyth o ieithoedd lleiafrifol ethnig allweddol a ddefnyddir yng Nghymru; ac rydym wedi uwchraddio hygyrchedd ein gwefan o A i gydymffurfio ag AA.

Yn ystod 2014/15 gwnaethpwyd mwy o waith mewn perthynas â'n gwefan, gyda'r bwriad o gyflwyno offer er mwyn galluogi cyfieithu tudalennau gwefan i amryw ieithoedd; gwiriadau mewn perthynas â materion ynglŷn â hygyrchedd gwefan; cyflwyno BrowseAloud sy'n gweithio gyda fersiynau symudol o'n gwefan yn ogystal â fersiynau bwrdd gwaith.

Mae sylw arbennig wedi cael ei roi i ofynion y bobl hynny sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, ac rydym yn bwriadu gwella ein gwasanaeth mewn perthynas â darpariaeth Iaith Arwyddion Prydeinig a chyfleusterau perthnasol eraill yn ystod 2015/16.

Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai defnyddwyr gwasanaeth angen cymorth wrth gyflwyno eu cwyn i ni ac rydym hefyd wedi buddsoddi llawer o'n hegni mewn casglu gwybodaeth ynglŷn â sefydliadau eirioli a chynghori er mwyn eu helpu yn hyn o beth. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar ein gwefan yn ogystal â thrwy ein Tîm Cynghori ynghylch Cwynion.

**Casglu/Monitro Data ar Gydraddoldeb - Defnyddwyr Gwasanaethau**

Rydym bob amser wedi monitro cydraddoldeb mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth, ac mae hyn wedi hysbysu ein strategaeth allgymorth blynyddol. Cyhoeddwyd canlyniadau'r monitro cydraddoldeb ers 2005/06 mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae canlyniad y monitro yn ystod 2015/16 mewn perthynas â grwpiau â nodweddion gwarchodedig (fel y diffinnir hynny yn y Ddeddf Cydraddoldeb) yn cael ei nodi isod.

O ystyried natur gwaith y swyddfa hon, buasem yn disgwyl i gyfansoddiad y bobl sy'n cwyno i'r swyddfa hon o leiaf adlewyrchu'r ddemograffeg genedlaethol; mewn gwirionedd, buasem yn disgwyl i gyfran yr achwynwyr o grwpiau y gellid ystyried eu bod o dan anfantais neu'n fregus fod yn uwch na'r darlun cenedlaethol. Mewn perthynas â'r holl gwestiynau a ofynnwyd gennym, rhoddwyd cyfle i'r rhai a lenwodd y ffurflenni i nodi 'Dewis peidio dweud'. Er hyn, o'r canlyniadau isod, mae OGCC yn gymharol fodlon, drwy gymharu â'r data swyddogol sydd ar gael (e.e. Cyfrifiad 2011), bod cyfansoddiad defnyddwyr ein gwasanaeth yn adlewyrchu'r ddemograffeg genedlaethol yn y modd y buasem yn ei ddisgwyl neu'n rhagori ar hynny. O'r rhai a ymatebodd, mae'n arbennig o dda gweld bod 4% wedi nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, sy'n adlewyrchu'r darlun demograffig yng Nghymru a geir yng Nghyfrifiad 2011. Roedd hwn yn grŵp oedd wedi cael eu tangynrychioli ychydig yn ystod y blynyddoedd mwyaf diweddar.

Rydym yn ystyried canlyniadau ein monitro cydraddoldeb wrth ddatblygu ein rhaglenni allgymorth. Bu i ni roi ffocws arbennig ar godi ymwybyddiaeth o wasanaeth OGCC ymysg pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ystod 2014/15, gan ymgysylltu â sefydliadau megis Diverse Cymru ac Oxfam Cymru. Er y gallai'r gwelliant fod yn gyd-ddigwyddiad, rwyf yn credu bod y gwaith allgymorth hwn wedi dylanwadu ychydig o leiaf yn y maes hwn.

| Grŵp â nodweddion a warchodir | Canlyniad canrannol |
|---|---|
| Oedran: | |
| O dan 25 | 4% |
| 25-34 | 13% |
| 35-44 | 19% |
| 45-54 | 22% |
| 55-64 | 20% |
| 65-74 | 12% |
| 75 neu'n hŷn | 5% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 4% |

| Grŵp â nodweddion a warchodir | Canlyniad canrannol |
|---|---|
| **Anabledd** | |
| Oes | 30% |
| Nac oes | 61% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 9% |
| **Problem iechyd neu anabledd yn cyfyngu ar weithgareddau bob dydd?** | |
| Oes, yn cyfyngu llawer | 26% |
| Oes, yn cyfyngu ychydig | 15% |
| Na | 50% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 8% |
| **Ailbennu rhywedd** | |
| Do | 31% |
| Naddo | 0.5% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 68.5% |
| **Crefydd neu gred** | |
| Dim crefydd | 39% |
| Cristion (pob enwad) | 49% |
| Crefyddau eraill | 6% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 5% |
| **Priod neu mewn perthynas sifil o'r un rhyw** | |
| Wyf | 46% |
| Nac ydwyf | 44% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 11% |
| **Hil/Ethnigrwydd** | |
| Gwyn | 91% |
| Cefndir ethnig arall | 4% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 5% |
| **Rhyw** | |
| Gwryw | 47% |
| Benyw | 47% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 6% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | |
| Heterorywiol neu strêt | 84% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 3% |
| Deurywiol | 0.5% |
| Arall | 1% |
| Dewis peidio dweud/Dim ymateb | 11.5% |

### Ein Gwaith Achos

Mae ein hymrwymiad a'n cyfraniad i faterion ynglŷn â chydraddoldeb hefyd yn amlygu ei hun yn ein gwaith delio â chwynion. Rydym hefyd yn ystyried materion ynglŷn â hawliau dynol. Er nad yr Ombwdsmon sydd yn penderfynu a yw darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn torri deddfwriaeth o'r fath, mae'n bosibl bod methu ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol o'r fath, neu fethu dilyn polisïau a gweithdrefnau a ddyluniwyd i weithredu'r rhwymedigaethau hyn, yn gamweinyddu. Er enghraifft, yn dilyn ymchwiliad i gwyn ynglŷn â gwaith yn cael ei wneud mewn eiddo gan gymdeithas tai, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 yn cynnwys argymhelliad y dylai'r gymdeithas tai hefyd ystyried effaith ei fethiannau mewn perthynas â'r Ddeddf Hawliau Dynol.

### Hyfforddiant

Yn ystod y blynyddoedd mae staff OGCC wedi derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant perthnasol yn y cyswllt hwn. Mae hyn yn bwysig i ni am ddau reswm. I ddechrau, fel y gall y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu fod yn ymatebol i anghenion a gofynion cyfnewidiol pobl yr ydym yn cysylltu a rhyngweithio â hwy. Er enghraifft, yn fwyaf diweddar mae dau aelod o staff wedi bod yn dysgu sut i gyfathrebu drwy Iaith Arwyddion Prydeinig. Yn ail, fel bod gennym y wybodaeth i allu dynodi unrhyw fethiannau ar ran darparwyr gwasanaethau yn ein hymchwiliadau mewn perthynas â'u dyletswyddau ynglŷn â chydraddoldeb.

Hefyd, ac fel y cyfeiriwyd at hynny yn Adran 6 yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer 2015/16 mewn perthynas â hyfforddi staff er mwyn dynodi materion ynglŷn â hawliau dynol wrth asesu ac ymchwilio i gwynion am gamweinyddu.

### Allgymorth

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau'r trydydd sector, yn cynnal seminarau ffurfiol o leiaf bob dwy flynedd, yn siarad ac yn annerch yn eu cynadleddau, ac mae gennym hefyd raglen ragweithiol barhaus o gyfarfod â sefydliadau unigol. Adroddwyd ar weithgaredd eleni yn Adran 6 yr Adroddiad Blynyddol hwn. Mae hyn yn galluogi trafodaethau dwy ffordd ynglŷn â gwaith y swyddfa, fel y gallwn gasglu safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu o'u safbwynt hwy, ac mae'n ein galluogi i egluro sut y gallant helpu'r unigolion hynny sydd angen cymorth wrth wneud cwyn i ni.

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fel rhan o waith datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bu i ni ddatblygu pecyn asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Erbyn hyn mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu gwreiddio yn ein harferion wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau presennol neu newydd.

### Casglu/Monitro Data am Gydraddoldeb Staff

Gofynnwyd i'n staff gwblhau a dychwelyd ffurflen fonitro sy'n ceisio gwybodaeth mewn perthynas â'r holl nodweddion a warchodir. Erbyn hyn rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o'r fath yn ystod ein harferion recriwtio. Mae'r datgelu hwnnw wrth gwrs yn wirfoddol. Nodir trosodd y data a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2015:

| | |
|---|---|
| Oedran | Mae cyfansoddiad oedran y staff fel a ganlyn:<br>21 i 30: 17%<br>31 i 40: 29%<br>41 i 50: 31%<br>51 i 65: 23% |
| Anabledd | Dywedodd 86% o'r staff nad oeddent yn anabl, ni ddywedodd yr un aelod staff eu bod yn berson anabl (dewisodd 14% i beidio â dweud)<br>Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a gyfyngwyd ar eu gweithgareddau bob dydd o ganlyniad i broblem iechyd neu anabledd a barodd am, neu y disgwylid iddo bara am, o leiaf 12 mis, dywedodd 2% y cyfyngir llawer arnynt, dywedodd 2% y cyfyngir ychydig arnynt, dywedodd 82% na chyfyngwyd ar eu gweithgareddau bob dydd (dewisodd 14% i beidio â dweud) |
| Cenedligrwydd | Wrth ddisgrifio eu cenedligrwydd, dywedodd 50% eu bod yn Gymry; dywedodd 26% eu bod yn Brydeinwyr, dywedodd 10% eu bod yn Saeson, dywedodd 2% 'Arall' (dewisodd 12% i beidio â dweud) |
| Grŵp ethnig | Ethnigrwydd y staff yw:<br>79% Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig);<br>2% Gwyn/Gwyddelig<br>3% Du (Affricanaidd, Caribïaidd, neu Ddu Prydeinig/Caribïaidd)<br>2% Asiaidd neu Ariaidd Prydeinig/Bangladeshaidd<br>(dewisodd 14% i beidio â dweud) |
| Iaith | Pan ofynnwyd beth oedd prif iaith yr aelwyd, dywedodd 75% o'r staff mai Saesneg oedd honno; dywedwyd Cymraeg gan 11%, a dywedwyd 'Arall' gan 2% (dewisodd 12% i beidio â dweud) |
| Crefydd neu Gred | Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn oedd yn gofyn i staff ynglŷn â'u crefydd fel a ganlyn:<br>Dim crefydd 38%;<br>Cristnogion 38%;<br>Mwslemiaid 2%;<br>Arall: 1%<br>(dewisodd 21% i beidio â dweud) |
| Priodas/ Partneriaeth Sifil | Pan ofynnwyd a oeddent mewn priodas neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw, bu i 49% ateb 'Wyf' tra bu i 33% ddweud 'Nac ydwyf' (dewisodd 18% i beidio â dweud) |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Wrth ymateb i hyn, dywedodd 77% eu bod yn Heterorywiol neu'n Strêt, 2% eu bod yn Hoyw neu Lesbiaid (dewisodd 21% i beidio â dweud) |

O dan y dyletswyddau penodol mae'n ofynnol i ni osod amcan cydraddoldeb ar gyfer rhyw a chyflog; os nad ydym yn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni egluro pam. Ar hyn o bryd nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys unrhyw amcan penodol yn y cyswllt hwn oherwydd ar yr adeg y'i datblygwyd roedd yna gynrychiolaeth dda o fenywod oedd yn derbyn y cyfraddau cyflog uwch yn fy swyddfa. Mae'r sefyllfa yn destun arolygu parhaus a bydd yr amcanion cydraddoldeb yn cael eu hadolygu os bydd angen. Fodd bynnag, fel y gellir gweld yn y tabl isod, mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn dderbyniol.

## Cyflog a Rhyw - data ar 31/03/2015

| Cyflog (FTE) | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Hyd at £20,000 | 0 | 6 |
| £20,001 i £30,000 | 1 | 12 |
| £30,001 i £40,000 | 1 | 2 |
| £40,001 i £50,000 | 8 | 20 |
| £50,001 i £60,000 | 3 | 2 |
| £60,001 + | 1 | 1 |
| **Is-gyfanswm** | **14** | **43** |
| **Cyfanswm** | **57** | |

Mewn perthynas â phatrymau gweithio'r uchod, mae'r holl aelodau staff yn gweithio'n llawn amser gyda chontractau parhaol, ac eithrio'r canlynol;

- mae 13 aelod o staff yn gweithio'n rhan amser (11 benyw, 2 wryw).
- nid oedd yr un aelod staff yn gyflogedig ar gontract cyfnod penodol.

### Staff newydd/staff yn ymadael

Yn ystod y flwyddyn fe adawodd chwech aelod o staff a recriwtiwyd chwech. Oherwydd y niferoedd isel dan sylw adroddwyd ar y data cydraddoldeb ar gyfer yr unigolion hyn fel rhan o'r wybodaeth am yr holl staff uchod. Ni ystyrir ei bod yn briodol adrodd ar wahân ar wybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb mewn perthynas unigolion dan sylw oherwydd y risg y gellid eu hadnabod.

### Recriwtio

Mae'r data cydraddoldeb a gasglwyd o'r tri ymarferiad recriwtio mewn perthynas â'r chwe chyflogai newydd uchod wedi arwain at y canlynol:

| | | SY | SGA TCC/ SCGA | Aelod o'r Panel Cynghori | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Heb ddweud | 9% | 8% | 0% | 9% |
| | dan 25 | 0% | 28% | 0% | 19% |
| | 25-34 | 26% | 35% | 0% | 32% |
| | 35-44 | 29% | 19% | 0% | 22% |
| | 45-54 | 25% | 10% | 21% | 15% |
| | 55-64 | 11% | 0% | 64% | 4% |
| | 65-74 | 0% | 0% | 7% | 1% |
| | 75 neu'n hŷn | 0% | 0% | 7% | 1% |
| Rhyw | Heb ddweud | 4% | 3% | 7% | 4% |
| | Gwryw | 43% | 42% | 71% | 42% |
| | Benyw | 53% | 55% | 21% | 54% |
| Cenedligrwydd | Heb ddweud | 5% | 6% | 7% | 6% |
| | Cymraeg | 92% | 61% | 64% | 71% |
| | Saesneg | 3% | 9% | 0% | 7% |
| | Albanaidd | 0% | 3% | 0% | 2% |
| | Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Prydeinig | 0% | 18% | 29% | 12% |
| | Gwyddelig | 0% | 3% | 0% | 2% |
| | Cymreig/Almaenig | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Grŵp Ethnig | Heb ddweud | 5% | 12% | 0% | 10% |
| | Gwyn (Cymreig/Albanaidd/Seisnig/GI/Prydeinig) | 95% | 76% | 100% | 82% |
| | Gwyn (Gwyddelig) | 0% | 3% | 0% | 2% |
| | Gwyn (Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig) | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Gwyn (Arall) | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 0% | 6% | 0% | 4% |
| | Du. Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 0% | 3% | 0% | 2% |
| | Grŵp ethnig cymysg neu luosog | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Grŵp ethnig arall | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Iaith | Heb ddweud | 14% | 3% | 14% | 7% |
| | Saesneg | 18% | 92% | 57% | 67% |
| | Cymraeg | 58% | 0% | 29% | 19% |
| | Dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) | 10% | 5% | 0% | 7% |
| | Arall | 0% | 0% | 0% | 0% |

| | | SY | SGA TCC/ SCGA | Aelod o'r Panel Cynghori | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd | Heb ddweud | 10% | 3% | 0% | 6% |
| | Oes | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Nac oes | 90% | 97% | 100% | 95% |
| Yn Cyfyngu ar Weithgareddau | Heb ddweud | 10% | 3% | 7% | 5% |
| | Oes, yn cyfyngu ychydig | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Oes, yn cyfyngu llawer | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Nac oes | 90% | 97% | 93% | 95% |
| Crefydd | Heb ddweud | 16% | 12% | 0% | 13% |
| | Dim | 34% | 59% | 14% | 51% |
| | Cristnogaeth | 47% | 29% | 86% | 35% |
| | Bwdhaeth | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Hindŵaeth | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Iddewiaeth | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Mwslim | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Sikh | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | arall | 3% | 0% | 0% | 1% |
| Priod neu mewn perthynas sifil | Heb ddweud | 5% | 7% | 7% | 6% |
| | Wyf | 32% | 16% | 86% | 21% |
| | Nac oes | 63% | 77% | 7% | 72% |
| Rhywedd | Heb ddweud | 18% | 19% | 7% | 19% |
| | Heterorywiol | 82% | 74% | 93% | 77% |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0% | 7% | 0% | 5% |
| | Deurywiol | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Arall | 0% | 0% | 0% | 0% |

[Noder: ac eithrio dyrchafiad mewnol .]

**Allwedd i'r talfyriadau:**

- **SY** – Swyddog Ymchwilio.
- **SGA TCC/SCGA** – Swyddog Gwaith Achos Tîm Cynghori ynghylch Cwynion neu Swyddog Cefnogi Gwaith Achos.

### Hyfforddi Staff

Mae'r rhan fwyaf o'r broses hyfforddi staff yn seiliedig ar rolau swydd neu'n gymwys i'r holl staff gyfranogi ynddi, ac oherwydd hynny nid oes dim ystyriaethau cydraddoldeb i adrodd arnynt. Mae'r holl hyfforddi y gofynnwyd amdano gan staff unigol wedi'i gymeradwyo, ac oherwydd hynny nid oes angen adrodd ar wahaniaethau data cydraddoldeb rhwng ceisiadau am hyfforddiant a gymeradwywyd a na gymeradwywyd.

### Disgyblaeth / Cwynion

Oherwydd nifer fechan y staff sy'n gweithio yn y swyddfa, a nifer fechan yr achosion o ddisgyblu / cwynion, ni ystyrir ei bod yn briodol adrodd ar ddata cydraddoldeb ar gyfer categori hwn oherwydd y risg y gellid adnabod y staff dan sylw. Rwyf yn parhau i fod yn fodlon nad oes yna broblemau y gellir eu hadnabod yn y maes hwn a fyddai'n achosi pryder i mi.

### Caffael

Mae ein polisi caffael erbyn hyn yn cyfeirio at y gofynion perthnasol ynglŷn â chydraddoldeb yr ydym yn disgwyl i'n cyflenwyr fod wedi'u sefydlu.

# Atodiad A

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus

## Crynodebau Achosion o Adroddiadau Budd Cyhoeddus

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
## Achos Rhif 201401023 – Gyrrwyd yr adroddiad Mawrth 2015

Cwynodd Mr C wrth fy swyddfa am y gofal a roddwyd i'w fam (Mrs M) gan Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ("y Bwrdd Iechyd"). Roedd Mrs M yn 86 oed. Roedd ganddi hanes meddygol a oedd yn cynnwys ffibriliad atriol ("AF"), Diabetes Math 2, osteoarthritis ac osteoporosis. Roedd yn cymryd nifer o feddyginiaethau gan gynnwys Warfarin (gwarchodaeth wrthgeulo ar gyfer AF). Fe'i derbyniwyd i Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 24 Mawrth 2012 oherwydd ei bod yn dioddef o ddolur rhydd ac yn chwydu.

Dywedodd Mr C fod Mrs M wedi cael strôc am oddeutu 5.00pm ar 4 Ebrill, wrth iddi aros i gael ei rhyddhau. Dywedodd, er bod y teulu wedi gofyn sawl gwaith, na chafodd ei fam ei gweld gan feddyg am dros chwech awr. Yna, dros nos, pan oedd hi'n cysgu, cafodd strôc sylweddol arall. Dywedodd Mr C fod y Bwrdd Iechyd wedi oedi droeon cyn ymateb i'r gŵyn a'i fod yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn ac ar ymateb y Bwrdd i'r gŵyn honno.

Yn fy ymchwiliad, ystyriwyd y cofnodion perthnasol, sylwadau'r Bwrdd Iechyd a'r dystiolaeth a roddwyd gan Mr C a'i deulu. Cefais gyngor gan feddyg profiadol, arbenigwr Strôc ac uwch nyrs brofiadol.

Penderfynais gadarnhau cwyn Mr C oherwydd fy nghasgliad oedd bod y gofal a roddwyd i Mrs M ar noson 4 Ebrill, ac yn y cyfnod a oedd yn arwain at y noson honno, yn annigonol. Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, drwy beidio â sicrhau gwarchodaeth ddigonol ar ffurf gwrthgeulydd, roedd y Bwrdd Iechyd wedi methu ag amddiffyn Mrs M yn briodol rhag strôc y gellid bod wedi'i hosgoi. Yna, methodd y Bwrdd Iechyd ag asesu a thrin ei symptomau'n brydlon ac yn effeithiol. Bu oedi hefyd cyn iddi gael ei gweld gan glinigydd a oedd wedi'i hyfforddi'n briodol a chyn i Mrs M gael ei throsglwyddo i Uned Strôc Acíwt.

Canfu fy ymchwiliad hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â gwneud y canlynol:

- dilyn Canllawiau Strôc perthnasol NICE ac nad oedd ganddo brotocol digonol ar gyfer strôc;
- darparu gofal nyrsio priodol (neu gofnodi bod gofal priodol wedi'i ddarparu);
- cadw cofnodion priodol;
- cydymffurfio â'r Canllawiau ar Ymdrin â Chwynion.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad a chytunodd i wneud y canlynol:

a) rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig diamwys i Mr M am y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn;

b rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig diamwys i Mr C am fethu â chydymffurfio â'r Canllawiau ar Ymdrin â Chwynion;

c) talu £5,500 i Mr M i adlewyrchu'r methiannau yn y gofal a nodwyd yn yr adroddiad hwn; yr ansicrwydd a achoswyd oherwydd y methiannau hynny; yr oedi wrth i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â'r gŵyn hon a'r amser a dreuliwyd gan ei deulu a'u trafferth wrth fynd ar drywydd y gŵyn gyda'r swyddfa hon;

d) er mwyn dysgu gwersi priodol, rhannu'r adroddiad hwn â'r staff meddygol, nyrsio, gofal iechyd a gweinyddol a fu'n ymwneud â'r achos hwn;

e) rhoi tystiolaeth imi am y mecanweithiau monitro a sicrwydd ansawdd sydd ar waith ganddo i atal y canlynol rhag digwydd eto:

- methiant y staff nyrsio i gwblhau'r asesiadau priodol ac i roi cynlluniau gofal priodol ar waith
- methiant y staff nyrsio i gadw cofnodion priodol
- methiant y staff gweinyddol, nyrsio a meddygol i ddilyn y Canllawiau ar Ymdrin â Chwynion;

f) sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cyfredol NICE a chanllawiau proffesiynol, drwy adolygu (ac os oes angen, drwy ddiweddaru) y polisïau/protocolau presennol ar gyfer y canlynol:

- rheoli cleifion mewnol sydd ar therapi Warfarin eisoes
- monitro INR cleifion mewnol sydd â chyflyrau perthnasol eisoes

(os bydd angen, dylai'r Bwrdd Iechyd roi hyfforddiant ar waith i staff sy'n dangos nad ydynt yn gwbl gyfarwydd â'r protocolau perthnasol);

g) sicrhau bod staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf i adnabod strôc acíwt, gyda golwg yn benodol ar ganllawiau cyfredol NICE a'r canllawiau proffesiynol;

h) sicrhau bod NIHSS (neu becyn cydnabyddedig tebyg), yn cael ei ddefnyddio i adnabod y cleifion sy'n debygol o fod wedi cael strôc acíwt;

i) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cyfredol NICE a'r canllawiau proffesiynol - adolygu ei drefniadau ar gyfer adnabod a thrin strôc acíwt ac ystyried cynnwys y camau a ganlyn:

- dylai pob claf a all fod wedi cael strôc acíwt gael ei asesu ar unwaith gan feddyg sydd wedi'i hyfforddi'n briodol i benderfynu a yw thrombolysis yn addas
- dylai pob claf a all fod wedi cael strôc acíwt gael sgan CT ar unwaith (h.y. o fewn awr)
- dylid asesu pob claf a all fod wedi cael strôc acíwt ar unwaith ar gyfer ei dderbyn i uned strôc acíwt arbenigol
- dylai pob claf a all fod wedi cael strôc acíwt gael prawf sgrinio llyncu (gan ddefnyddio pecyn sydd wedi'i ddilysu) gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig o fewn pedair awr;

j) rhoi tystiolaeth addas i'm swyddfa i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'r argymhellion.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Doctor Teulu
## Achosion Rhif 201306223 a 201306224 – Gyrrwyd yr adroddiad Chwefror 2015

Cwynodd Mrs H am safon y gofal a roddwyd i'w diweddar ŵr, X, gan Wasanaethau Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd a'i Bractis Meddyg Teulu, cyn iddo farw yn Ionawr 2013 (pan wnaeth ladd ei hun). Roedd hanes clinigol X yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau - roedd wedi hunan-anafu, wedi camddefnyddio alcohol a chyffuriau ac wedi cymryd gorddosys. Yn 2012, roedd X yn parhau i gael ei drin gan y Practis Meddyg Teulu yn fwyfwy cyson o hyd, gyda nifer o wahanol feddyginiaethau'n cael eu rhagnodi iddo i drin gorbryderu / anhwylderau'n ymwneud â'i hwyliau a / neu iselder. Roedd y rhain yn cynnwys cyffuriau a elwir yn benzodiazepines (ac mae'n wybyddus y gall pobl fynd yn gaeth iddynt). Cymrodd X orddos o gyffuriau gwrth-iselder yn Ionawr 2013, bythefnos cyn iddo farw, ond cafodd ei ryddhau o'r ysbyty ac arhosodd ar y rhestr aros i dderbyn cwnsela (y bu arni ers tro). Fodd bynnag, cyn y gallai gael ei weld, fe wnaeth X ladd ei hun. Cwynodd Mrs H hefyd ei bod wedyn wedi derbyn llythyr wedi'i gyfeirio at X yn ei wahodd i fynychu apwyntiad cwnsela yn y Practis, oedd wedi ychwanegu at ei thrallod. Mewn cwest i farwolaeth X, rhoddwyd dyfarniad o hunanladdiad gan nodi hefyd bod "Y rhai a fu'n ei drin wedi methu ag adnabod ei fwriad i ladd ei hun."

Yn dilyn cyngor gan gynghorwyr clinigol yr Ombwdsmon, cafodd y gŵyn ei gynnal i raddau helaeth. Er na allwn ddod i unrhyw gasgliad sicr y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol, oni bai am y methiannau a gafodd eu nodi'n ystod yr ymchwiliad, roedd y methiannau ar ran y Bwrdd Iechyd a'r Practis yn cynnwys y canlynol:

- Bod y Bwrdd Iechyd wedi colli cyfle i werthuso iechyd meddwl X yn iawn yn dilyn digwyddiadau difrifol blaenorol, ac i'w asesu'n gynhwysfawr pan gafodd ei weld.
- Bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â thrafod trefniadau rhyddhau X ar ôl iddo gymryd gorddos bythefnos cyn iddo farw, ac wedi methu â rhoi gwybodaeth brydlon am ei ryddhau i'r Practis.
- Nifer o gamgymeriadau yn ymchwiliad y Bwrdd Iechyd ei hun, yn dilyn marwolaeth X, a ddangosai ddiffyg gofal a sylw priodol.
- Bod y Practis wedi methu ag atgyfeirio X at ofal eilaidd a / neu wedi methu ag asesu risg X o ladd ei hun yn iawn.
- Roedd y ffaith bod y Practis wedi parhau i ragnodi bensodiasepinau'n groes i ganllawiau cenedlaethol.

Argymhellais fod y Bwrdd Iechyd a'r Practis yn ymddiheuro wrth Mrs H, ac yn cynnig talu iawndal o £1,500 yr un iddi, am y methiannau a nodwyd, am ei thrallod ac am ei hamser yn gwneud ei chwyn.

Roedd argymhellion pellach yn cynnwys bod y Bwrdd Iechyd yn darparu tystiolaeth o archwilio ei drefniadau cyfathrebu â Meddygon Teulu (MT) wrth ryddhau cleifion, ei drefniadau i atgoffa staff sy'n cyflawni ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol a'i drefniadau i atgoffa staff ynghylch asesiadau risg cynhwysfawr. O ran y Practis, fe wnaed argymhellion pellach y dylai barhau i archwilio a monitro ei drefniadau rhagnodi bensodiasepinau ac y dylai gynhyrchu Polisi Rhagnodi ar gyfer y Practis. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd a'r Practis fy argymhellion yn llawn.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Doctor Teulu
## Achosion Rhif 201302382 a 201306002 – Gyrrwyd yr adroddiad Medi 2014

Cwynodd Mrs X fod meddyg teulu ei mam wedi methu â sicrhau bod aspirin, yr arferai ei mam ei gael ar bresgripsiwn i drin ffibriliad artrïaidd, ac a dynnwyd yn ôl oherwydd ei bod yn cymryd warfarin, yn cael ei ragnodi ar ei chyfer unwaith eto wedi'r cyfnod yr oedd hi'n cael warfarin ddod i ben. Dywedodd Mrs X bod ei mam, Mrs Y, wedi cael strôc oedd wedi'i hanalluogi. Roedd hi o'r farn y gellid fod wedi osgoi'r strôc, neu na fyddai'r strôc wedi bod mor ddifrifol, pe bai hi wedi bod yn cymryd aspirin. Canfûm fod y meddyg teulu wedi methu ail-ragnodi aspirin ar gyfer Mrs Y ym mis Ionawr 2013, ond nad oedd dim tystiolaeth y byddai aspirin wedi lleihau'r risg y byddai Mrs Y yn cael strôc.

Mynegodd fy nghynghorwyr bryder ynghylch methiant y meddyg teulu i ystyried rhagnodi warfarin, yn hytrach nag aspirin, ar gyfer ffibriliad atrïaidd, a methiant gweithwyr gofal eilaidd proffesiynol yn y Bwrdd Iechyd i awgrymu i'r meddyg teulu ei bod yn ystyried gwneud hynny. Felly, ehangwyd cwmpas fy ymchwiliad i gynnwys y Bwrdd Iechyd.

Canfûm nad oedd yn afresymol bod y meddyg teulu wedi rhagnodi aspirin yn 2004, gan nad oedd canllawiau ar y pryd yn argymell warfarin yn bendant. Serch hynny, dangosodd sgan CT yn 2011 fod Mrs Y wedi cael strôc; felly yr oedd yn hysbys bod risg uchel y byddai hi'n cael strôc arall, a dylai gwasanaeth offthalmoleg y Bwrdd Iechyd, sef y rhai oedd wedi trefnu'r sgan, fod wedi'i hatgyfeirio i'r Adran Strôc. Hefyd, dylai'r meddyg teulu fod wedi ystyried rhagnodi warfarin ar ei chyfer, yn unol â chanllawiau oedd yn bod ar y pryd.

Collwyd cyfleoedd eraill i ddeall y sefyllfa ym mis Gorffennaf a mis Medi 2012. Ym mis Gorffennaf, cafodd Mrs Y thrombosis gwythiennau dwfn (DVT), a rhagnodwyd cwrs o warfarin am chwe mis ar ei chyfer. Ond, nid oedd y clinigydd oedd wedi'i hatgyfeirio i'r adran haematoleg ym mis Gorffennaf na'r cardiolegydd oedd wedi'i gweld ym mis Medi wedi tynnu sylw'r meddyg teulu at y ffaith bod gwerth ystyried rhagnodi warfarin ar gyfer Mrs Y ar sail hirdymor. Nid oedd y meddyg teulu wedi adolygu meddyginiaeth Mrs Y bryd hynny nac ar ôl hynny. Canfum fod y rhain yn fethiannau difrifol a bod y gŵyn yn ddilys; pe bai Mrs Y wedi bod yn cymryd warfarin, byddai wedi lleihau'r risg o ddioddef strôc yn sylweddol, ond ni allai ddod i'r casgliad na fyddai wedi dioddef strôc.

Argymhellais y dylai'r meddyg teulu wneud y canlynol:

a) ymddiheuro i Mrs X am y methiannau a nodwyd;

b) talu £1,000 i Mrs X fel cydnabyddiaeth o'r gofid sylweddol yr oedd y methiannau hyn wedi'i achosi iddi;

c) os nad oedd eisoes wedi gwneud hynny, cynnal archwiliad o'r holl gleifion yn y Practis sydd wedi cael diagnosis o ffibriliad artrïaidd, er mwyn sicrhau bod y gwrthgeulydd mwyaf addas yn cael ei ragnodi ar eu cyfer;

d) cyflwyno a chynnal cofrestr o gleifion o'r fath, gan gynnal adolygiad o'u triniaeth bob blwyddyn.

Argymhellais y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

a) ymddiheuro i Mrs X am y methiannau a nodwyd;

b) talu £1,000 i Mrs X fel cydnabyddiaeth o'r gofid sylweddol yr oedd y methiannau hyn wedi'i achosi iddi;

c) ystyried cyflwyno cofrestr ac adolygiad blynyddol o feddyginiaeth cleifion sydd â ffibriliad artrïaidd;

d) cyflwyno trefniant a fydd yn sicrhau bod y clinigydd gwreiddiol yn cynnal adolygiad o feddyginiaeth cleifion sydd ar warfarin cyn eu hanfon adref;

e) cynghori pob clinigydd i fod yn glir ynghylch yr hyn mae'n ei ddisgwyl o ran gofalu am y claf yn y dyfodol wrth ohebu â meddygon teulu;

f) Cynnal adolygiad o drefniadau'r adran offthalmoleg o ran atgyfeirio i adrannau arbenigol eraill.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
## Achos Rhif 201302660 – Gyrrwyd yr adroddiad Gorffennaf 2014

Cwynodd Mrs X am yr amser y bu'n rhaid i'w thad (Mr Y) aros am gael ei weld ar ôl cael ei gyfeirio gan ei feddyg teulu ym mis Medi 2012 am endosgopi yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Dywedodd Mrs X bod y cyfeirio wedi cael ei israddio o fod yn achos brys gydag amheuaeth o ganser heb i'w thad gael ei weld a heb unrhyw drafodaeth gyda'i feddyg teulu. Roedd hefyd yn bryderus am y diffyg perchnogaeth a chyfrifoldeb clir am y gofal o'i thad. Dywedodd Mrs X bod diffyg cydlynu rhwng y gwahanol arbenigeddau cysylltiedig a arweiniodd at fethiannau cyfathrebu. Roedd Mrs X o'r farn y gallai triniaeth ei thad a'i ansawdd bywyd fod wedi bod yn well pe bai wedi cael ei weld yn gynt.

Cwynodd Mrs X hefyd bod ymchwiliad dilynol y Bwrdd Iechyd i'w chwyn wedi methu derbyn cyfrifoldeb ac wedi methu cydnabod y niwed a achoswyd gan yr oedi gyda rhoi sylw i Mr Y. Wrth ymchwilio i'r gŵyn, rhoddodd yr Ombwdsmon Dros Dro ystyriaeth i farn un o'i Hymgynghorwyr Clinigol. Canfu'r Ombwdsmon Dros Dro bod oedi annerbyniol gyda'r gofal a ddarparwyd a dywedodd na ddangoswyd unrhyw frys yng nghyswllt cyflwr clinigol Mr Y. Dywedodd bod gwendidau yn yr arweiniad a'r perchnogaeth cysylltiedig â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i Mr Y. Mynegodd yr Ombwdsmon Dros Dro bryder am gyfathrebu annigonol â'r meddyg teulu ac â Mr Y a'i deulu. Dywedodd yr Ombwdsmon Dros Dro nad oedd y polisi Bwrdd Iechyd perthnasol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE). Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro yn bryderus hefyd am yr amser aros ar gyfer apwyntiad claf allanol brys. Dywedodd bod oedi diangen wedi bod gyda chynnal endosgopi. Cafodd prif leoliad y canser ei ganfod yn dilyn hyn.

Dywedodd yr Ombwdsmon Dros Dro bod cyfiawnhad dros y pryderon a fynegwyd gan Mrs X am y gofal clinigol. Er na fyddai ymateb mwy amserol wedi newid y canlyniad trist, dywedodd y gallai fod wedi osgoi'r dioddef seicolegol diangen a deimlwyd gan Mr Y a'i deulu. Roedd yn bosib hefyd y gellid bod wedi osgoi cynnal traceostomi.

Dywedodd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd bod cyfiawnhad dros gŵyn Mrs X am ymchwiliad dilynol y Bwrdd Iechyd i'r gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon Dros Dro y dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) ymddiheuro i Mrs X am y gwendidau arwyddocaol yng ngofal a thriniaeth ei thad;

b) rhoi iawndal o £1500 i Mrs X am y gofid a achoswyd i Mr Y a'i deulu a £500 am yr amser a'r drafferth a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno cwyn ac am y gwendidau yn yr ymateb i'r gŵyn;

c) adolygu meini prawf cyfeirio'r endosgopi ar gyfer achosion brys gydag amheuaeth o ganser i sicrhau cysondeb â chanllawiau perthnasol NICE;

d) sicrhau bod y Prif Astroenterolegydd Ymgynghorol yn ystyried y materion sydd wedi'u codi yn yr achos hwn;

e) gweithredu i sicrhau bod yr oedi annerbyniol ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol brys yn cael sylw;

f) adolygu'r broses i sicrhau bod clinigydd arweiniol neu dîm canser amlddisgyblaethol perthnasol yn gweithredu ar frys ynghylch canlyniadau annormal;

g) adolygu sut mae'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol â chleifion a'u teuluoedd, yn enwedig pan fo un neu fwy o arbenigeddau'n gysylltiedig;

h) cydymffurfio â'r fframwaith "Gweithio i Wella" gan gynnwys ystyriaeth briodol i "rwymedigaethau cymhwyso" a cheisio cyngor clinigol annibynnol o dan amgylchiadau priodol.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
## Achos Rhif 201301339 – Gyrrwyd yr adroddiad Mehefin 2014

Cwynodd Ms A fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ("y Bwrdd Iechyd") wedi achosi oedi gyda dau o'i hapwyntiadau yn eu Clinig Adolygu Glawcoma ("y Clinig"), a hynny heb reswm digonol. Dywedodd fod yr oedi wedi achosi iddi fod ag angen triniaeth frys. Honnai iddi ddioddef colled arwyddocaol yn ei golwg yn ei llygad dde, a phrofi "trallod sylweddol" oherwydd yr oediadau hyn gyda'i hapwyntiadau. Dywedodd ei bod yn anfodlon ag ymateb y Bwrdd Iechyd i'w chwyn oherwydd iddynt gymryd gormod o amser yn darparu'r ymateb hwnnw, a bod y Bwrdd yn honni bod ei golwg "heb ei effeithio" gan yr oedi hwn yn ei hapwyntiadau.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon Dros Dro gŵyn Ms A. Roedd hi o'r farn bod y Bwrdd Iechyd wedi achosi oedi gydag apwyntiadau Clinig Ms A, a hynny heb reswm digonol, a'u bod wedi methu rheoli'n briodol y peryglon a wynebai oherwydd glawcoma. Roedd hi hefyd o'r farn eu bod wedi cymryd gormod o amser yn ymateb i gŵyn Ms A a'u bod wedi methu ei diweddaru ynglŷn â'r sefyllfa, na rheoli'r mater o rwymedigaeth cymhwyso mewn ffordd briodol. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) ysgrifennu at Ms A yn ymddiheuro dros y methiannau a ddynodwyd;

b) ysgrifennu at Ms A yn esbonio sut y daethant i'r casgliad nad oedd unrhyw rwymedigaeth cymhwyso yn berthnasol i'w hachos hi;

c) adolygu eu gwasanaethau offthalmeg gan gyfeirio at adroddiad ei hymchwiliad ac adroddiad "Sefyllfa Cefndir Asesu Argymhelliad" (SCAA / SBAR);

ch) paratoi adroddiad SCAA / SBAR arall yn dilyn yr adolygiad hwn.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd yn ystyried ei bod hi'n briodol argymell talu iawndal ariannol i Ms A. Fodd bynnag, ni wnaeth hi hynny gan nad oedd Ms A yn dymuno derbyn iawndal o'r fath. Cytunodd y Bwrdd gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed.

## Bwrdd Iechyd Cwm Taf
## Achos Rhif 201300374 – Gyrrwyd yr adroddiad Mai 2014

Cwynodd Mrs C drwy ei chyfreithiwr, fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â diagnosio'r tiwmor ar ei hymennydd mewn da bryd; yn hytrach, am dros flwyddyn roedd wedi cael ei thrin am strôc, ac yn ddiweddarach wedi cael ei hatgyfeirio i gael asesiad iechyd meddwl. O ganlyniad, dywedodd Mrs C, nad oedd wedi cael unrhyw beth i leddfu'r symptomau trallodus a ddioddefodd ac y gwnaed iddi deimlo bod ei symptomau yn seicosomatig. Yn ogystal, cwynodd Mrs C ynglŷn â sut y bu i'r Bwrdd Iechyd ddelio â'i chŵyn dilynol.

Fe wnaeth yr ymchwiliad ganfod methiannau yn rheolaeth glinigol Mrs C. Dywedodd Cynghorwyr Clinigol Annibynnol yr Ombwdsmon Dros Dro y dylai derbyniadau niferus Mrs C i'r ysbyty fod wedi ysgogi diagnosis gwahanol, yn hytrach na strôc, yn gynharach o lawer. Dylai ei bod wedi cael ei chyfeirio at Niwrolegydd a/neu i gael sgan MRI. Ni ellid esbonio'r ddau atgyfeiriad aflwyddiannus. Roedd y Meddyg a oedd yn trin Mrs C am strôc yn gweithio ar ei ben ei hun ar y pryd; cafodd hyn ei feirniadu oherwydd nad oedd yn rhoi cyfle i drafod pethau cymhleth a oedd yn codi. Roedd y ceisiadau i gael ei hatgyfeirio i'r adran Radioleg yn annigonol neu'n anneglur ac fe arweiniodd hyn at ddiffygion o ran cyfathrebu a chamddehongli rhai o'r delweddau. Fe arweiniodd hyn at gyfnod o 12 mis o drallod ychwanegol i Mrs C er na fyddai wedi bod yn bosibl cynnig unrhyw ymyrraeth lawfeddygol iddi yn anffodus. Bu rhywfaint o oedi yn ymateb y Bwrdd Iechyd i geisiadau a wnaed gan gyfreithiwr Mrs C fel rhan o'i chŵyn. Dyfarnwyd bod cwynion Mrs C wedi'u cyfiawnhau.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i holl argymhellion yr Ombwdsmon Dros Dro:

a) ymddiheuro a chynnig £2,500 o iawndal i Mrs C am ei thrallod o ganlyniad i'r oedi a'r methiannau a nodwyd;

b) drwy Arweinydd Clinigol, atgoffa'r holl staff bod angen darparu ceisiadau cywir a chlir i'w cydweithwyr yn yr adran Radioleg ac i roi tystiolaeth briodol ynghylch atgyfeiriadau rhwng clinigwyr yn glir mewn cofnodion clinigol;

c) dylai achos Mrs C gael ei ddefnyddio fel ymarfer dysgu a'i drafod mewn cyfarfod ar y cyd o'r holl adrannau sy'n ymwneud â'r achos;

d) dylai'r gwasanaeth Radioleg ystyried cymryd rhan yn gynnar mewn treialon gwneud ceisiadau Radioleg yn electronig yng Nghymru yn y dyfodol.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
## Achos Rhif 201205048 – Gyrrwyd yr adroddiad Mai 2014

Cwynodd Mrs A am y gofal a gafodd ei diweddar dad, Mr B, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ("y Bwrdd Iechyd") yn Ysbyty Treforys ("yr Ysbyty"). Roedd ei chwyn yn ymwneud â'r diagnosis o'i gyflwr a'r ymchwiliad iddo, ei driniaeth yn yr Adran Achosion Brys, ei ryddhau o'r Ysbyty, yr anaf a gafodd i'w asgwrn cefn, ei sylw offthalmolegol, ei asesiad trin â llaw, a'i ofal personol. Roedd gan Mr B ganser.

Dyfarnodd yr Ombwdsmon Dros Dro fod cwyn Mrs A wedi'i chyfiawnhau. Roedd yn teimlo nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymchwilio'n briodol i gyflwr Mr B, ac nad oedd wedi rhoi diagnosis cywir yn ddigon buan. Nid oedd wedi rhoi blaenoriaeth amserol iddo, na rheoli ei ryddhau, ei boen na'i anghenion cysylltiedig â thrin yn effeithiol. Nid oedd chwaith wedi rhoi gofal personol o safon resymol iddo. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) ysgrifennu at Mrs A i ymddiheuro am y methiannau a nodwyd

b) dalu i Mrs A swm o £1,500 i gydnabod y gofid sylweddol a achoswyd gan ei fethiannau;

c) agoffa ei glinigwyr yn ffurfiol o bwysigrwydd datgan ac ymateb i Faneri Coch;

d) ei fodloni ei hun bod ei drefniadau blaenoriaethu yn llwyddo i osgoi unrhyw oedi tebyg i'r oedi a brofwyd gan Mr B;

e) adolygu ei bolisi poen i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli poen perthnasol;

f) drefnu a darparu hyfforddiant cysylltiedig â rhyddhau i aelodau ei staff nyrsio;

g) atgoffa aelodau ei staff nyrsio yn ffurfiol bod rhaid iddynt sicrhau bod eu dull o drin cleifion yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau perthnasol;

h) atgoffa aelodau ei staff nyrsio yn ffurfiol bod rhaid iddynt asesu ac adolygu anghenion gofal personol eu cleifion yn systematig a chofnodi'r gwasanaeth a ddarperir mewn cysylltiad â hwy yn gyson;

i) atgoffa aelodau ei staff nyrsio yn ffurfiol bod rhaid iddynt sicrhau bod eu gofal cathetr yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau perthnasol;

j) drefnu a darparu hyfforddiant rheoli poen i aelodau ei staff nyrsio;

k) rannu adroddiad ei hymchwiliad â'r holl aelodau o staff perthnasol a'i drafod mewn fforwm priodol.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'r argymhellion hyn.

## Cartrefi Cymunedol Gwynedd
## Achos Rhif 201304611 – Gyrrwyd yr adroddiad Awst 2014

Cwynodd Mr K fod Cartrefi Cymunedol Gwynedd ("CCG"), ei landlord, sef cymdeithas dai, wedi gwrthod yn annheg ei gais i addasu ei eiddo i osod cawod cerdded-i-mewn-iddi. Dywedodd fod CCG wedi derbyn bod angen yr addasiad arno, fel yr oedd dau asesiad therapi galwedigaethol wedi'i nodi.

Esboniodd Mr K fod CCG wedi gwrthod y cais yn bennaf oherwydd ei fod ef a Mrs K yn tanfeddiannu eu cartref, gan ei fod yn eiddo tair ystafell wely. Roedd wedi dweud bod llawer o deuluoedd yn disgwyl am gartrefi o'r fath. Roedd Mr K yn haeru bod penderfyniad CCG i wrthod y cais ac wedyn gwrthod ei apêl yn dangos bod ei bolisïau'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn ac anabl. Hefyd, teimlai bod y ffordd y deliodd CCG â'i apêl yn anghywir.

Dywedodd Mr K ei fod yn cael ei orfodi i symud o gartref lle roedd wedi byw ers 36 mlynedd yn erbyn ei ewyllys gan nad oedd yn gallu defnyddio cyfleusterau'r ystafell ymolchi yn iawn.

Daethum i'r casgliad fod CCG yn gyffredinol yn gweithredu polisïau rhesymol, a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn ystyried y cydbwysedd rhwng defnydd darbodus o'i stoc dai a hawliau tenantiaid. Ond, dyfarnais bod angen i CCG wneud mwy i ddarparu tystiolaeth yn ei fframwaith polisi am nifer y teuluoedd sy'n disgwyl am gartref teulu, ac am faint y maent yn gorfod aros.

Ond, yn achos Mr K, dyfarnais fod CCG wedi camweinyddu wrth iddynt ddelio â'r cais a'r apêl. Canfum fod penderfyniad cychwynnol i wrthod y cais wedi cael ei gymryd heb roi ystyriaeth ddyladwy i amgylchiadau Mr K. Wedyn, methodd y penderfyniad adeg yr apêl â nodi'r diffyg hwnnw. Roeddwn o'r farn nad oedd Mr K wedi cael gwrandawiad teg oherwydd y methiannau hyn. Roedd Mr K wedi dioddef anghyfiawnder yn y cyd-destun hwnnw.

Cadarnheais gŵyn Mr K ac argymhellais y dylai CCG:

a) ymddiheuro wrth Mr K;

b) dalu £300 iddo;

c) gynnig i Mr K bod ei gais yn cael ei ailystyried o'r newydd ac yn brydlon;

d) adolygu ei Bolisi Addasiadau yng nghyswllt un agwedd ar ei eiriad;

e) ystyried sut y gallai ymgorffori'r sail dystiolaethol o ran yr angen am gartrefi i deuluoedd yn y Polisi Addasiadau.

Derbyniodd CCG yr argymhellion hyn.

## Cyngor Sir Caerfyrddin
## Achos Rhif 201304738 – Gyrrwyd yr adroddiad Ionawr 2015

Cwynodd Mr Y am yr oedi gan y Cyngor cyn ymchwilio i'w bryderon am les ei ferch pedair blwydd oed, pan oedd yng ngofal ei mam.

Roedd ei bryderon yn ymwneud ag amodau byw'r teulu, y newid cyfeiriad mynych a honiadau o gam-drin cyffuriau. Roedd o'r farn bod rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd gan weithiwr cymdeithasol yn ymwneud â chymryd cyffuriau a rhianta yn "amhriodol."

Canfum nad oedd y Cyngor wedi ymweld â'r cartref a'i fod wedi colli nifer o gyfleoedd i ymchwilio i bryderon Mr Y am amgylchiadau'r teulu, a oedd yn cynnwys nifer o ffactorau risg. Roedd yn hytrach wedi dibynnu ar wybodaeth gan yr ysgol, lle'r oedd ei ferch yn ddisgybl newydd. Nid oedd ychwaith wedi cynnal ymchwiliad priodol i atgyfeiriad a wnaethpwyd gan Dîm Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Cyngor Sir o Loegr a oedd â phryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan Mr Y ac a oedd wedi gofyn am "archwiliad lles brys." Aeth sawl mis heibio cyn yr ymwelwyd â'r cartref ac ni wnaethpwyd hynny tan ar ôl atgyfeiriad gan yr heddlu yn dilyn cyrch i chwilio am gyffuriau. Ni chynhaliwyd asesiad o anghenion y plentyn cyn i'r plentyn adael ardal y Cyngor i ddychwelyd i ofal Mr Y.

Canfum nad oedd sylw yn ymwneud â chymryd cyffuriau a rhianta gan weithiwr cymdeithasol yn briodol o gofio'r diffyg ymchwilio a'r asesu a fu i amgylchiadau merch Mr Y. Nodais hefyd drefniadau gwael iawn y Cyngor i ddelio â chwynion a chanfum fod staff y Cyngor yn amddiffynnol ac nad oeddent yn wrthrychol wrth ddelio â sylwadau Mr Y. Methodd y Cyngor â delio â'r gŵyn o dan y gweithdrefnau Cwynion Plant fel y dylai fod wedi'i wneud, a chollwyd cyfle i ymchwilio i fethiannau gwasanaeth yn achos merch Mr Y.

Derbyniodd y Cyngor fy argymhellion i:

a) ymddiheuro i Mr Y a thalu £1,000 am yr ansicrwydd a achoswyd gan y diffyg asesu, ynghyd â'r "amser a'i drafferth" yr aeth iddo i gwyno;

b) trefnu archwiliad (i gael ei gynnal yn annibynnol ar y Cyngor) o atgyfeiriadau at ei Dimau Gwasanaethau Plant i adolygu priodoldeb a chysondeb ei ymatebion;

c) darparu hyfforddiant ar y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd ar gyfer staff sy'n ymdrin ag atgyfeiriadau ac asesiadau;

d) adolygu ei drefniadau i ymdrin â chwynion gwasanaethau cymdeithasol, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau diweddar;

e) darparu hyfforddiant ar ddelio â chwynion i'r staff hynny sy'n delio â chwynion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant.

## Cyngor Cymuned Llansannan
## Achos Rhif 201304436 – Gyrrwyd yr adroddiad Gorffennaf 2014

Cwynodd Mr Z i Gyngor Cymuned Llansannan ("y Cyngor") ei atal rhag mynychu'r cyfarfodydd misol. Cwynodd ymhellach i'r Cyngor orffen darpariaeth o wasanaeth cyfieithu ar gyfer y cyfarfodydd cyn dweud wrtho na fyddai yn cael dod iddynt yn rhagor. Mae'r Cyngor yn ymwneud a'i fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg un unig ac nid yw Mr Z yn deall Cymraeg.

Canfu'r ymchwiliad fod yna gamweinyddu yn y modd penderfynodd y Cyngor i atal Mr Z rhag mynychu cyfarfodydd. Nid oedd yna unrhyw gofnodion na nodyn ysgrifenedig o gyfarfod y Panel apêl yn lle y dywedwyd cymerwyd y penderfyniad. Ystyriodd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd nad oedd unrhyw sail dystiolaethol am y penderfyniad yn sgil yr hawl wedi'i fewnblannu yn statudol i aelodau'r cyhoedd allu fynychu cyfarfodydd cynghorau etholedig, ond iddynt beidio tarfu ar y cyfarfodydd (pan gellid gofyn i'r mynychwyr hynny i adael neu tynnu'n ôl ar eu hawl i fynychu). Doedd dim tystiolaeth o unrhyw darfu pan fynychodd Mr Z; roedd y penderfyniad yn gwbl seiliedig ar ei ymddygiad mewn bywyd dyddiol tu allan i gyfarfodydd. Er nad yn cydoddef yr ymddygiad hwnnw, nid oedd sail i atal Mr Z rhag mynychu.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro yn fodlon y gall y Cyngor, fel y gwnaed, benderfynnu ymwneud a'i fusnes yn Gymraeg ond nid oedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i darbwyllo bod y Cyngor wedi arddangos sut y gallai sicrhau bod y cyhoedd di-Gymraeg yn medru cyfrannu at ei waith democrataidd (fel y nodwyd yng nghyfarwyddyd wedi'i ryddhau gan Lywodraeth Cymru). Hefyd, roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Cymraeg oedd yn dynodi y byddai yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Gallai ddim felly, yn wrthrychol, fod yn cyflawni hyn os nad oedd unrhyw ddarpariaeth i'r rhai oedd yn mynychu cyfarfodydd nad oeddent yn deall Cymraeg. Fel arall byddai aelodau'r etholaeth yn methu deall yr hyn a drafodwyd.

Gwnaeth yr Ombwdsmon Dros Dro yr argymhellion canlynol i'r Cyngor:

a) I ymddiheuro i Mr Z am y gamweinyddiaeth ac o ganlyniad yr anghyfiawnder iddo am na allai fynychu'r cyfarfodydd misol;

b) I adolygu nifer o'i bolisïau yn cynnwys ei Reolau Sefydlog a'r Polisi Iaith Cymraeg i sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â'i sefyllfa ar gyfieithu mewn cyfarfodydd busnes;

c) I sicrhau ei fod yn cofnodi'n ysgrifenedig unrhyw benderfyniad a gymerwyd yn unol â'i bolisïau a gweithdrefnau.

# Atodiad B

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus

## Dadansoddiad ystadegol o ganlyniadau yn ôl cwynion am gyrff cyhoeddus yr ymchwiliwyd iddynt

## CYNGHORAU SIR/CYNGHORAU BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn Ystyriaeth Gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 6 | 4 | 10 | | | | 1 | | 1 | **22** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 9 | 19 | | | | 1 | | 1 | **32** |
| Caerffili | 9 | 19 | 19 | | | | 1 | 1 | | **49** |
| Caerdydd | 11 | 41 | 27 | | 17 | | 1 | | 1 | **98** |
| Sir Gaerfyrddin | 5 | 23 | 17 | 2 | 7 | 1 | 1 | | 2 | **58** |
| Ceredigion | 3 | 12 | 12 | 1 | 2 | | 7 | 1 | | **38** |
| Conwy | 8 | 8 | 13 | | 1 | | | | | **30** |
| Sir Ddinbych | 7 | 10 | 8 | | 1 | | 1 | 1 | | **28** |
| Sir y Fflint | 7 | 20 | 12 | | 3 | | 1 | | | **43** |
| Cyngor Gwynedd | 7 | 9 | 12 | | 3 | | 1 | | 1 | **33** |
| Ynys Môn | 4 | 14 | 13 | | | | | | | **31** |
| Merthyr Tydfil | 5 | 5 | 6 | | | | 1 | | | **17** |
| Sir Fynwy | 2 | 9 | 5 | | | | 2 | | 1 | **19** |
| Castell Nedd Port Talbot | 3 | 15 | 14 | | 3 | | 2 | | | **37** |
| Casnewydd | 1 | 14 | 18 | | 1 | | | | | **34** |
| Sir Benfro | 5 | 14 | 13 | | 3 | | | | | **35** |
| Powys | 4 | 20 | 22 | | 3 | | 1 | 1 | | **51** |
| Rhondda Cynon Taf | 4 | 17 | 13 | | 1 | | | | | **35** |
| Abertawe | 9 | 20 | 28 | | 1 | | 1 | | | **59** |
| Bro Morgannwg | 6 | 9 | 12 | | 3 | | 1 | | | **31** |
| Torfaen | 2 | 7 | 13 | | 4 | | | | | **26** |
| Wrecsam | 7 | 22 | 22 | 1 | 5 | | 1 | 1 | | **59** |
| **CYFANSWM** | **117** | **321** | **328** | **4** | **58** | **1** | **24** | **5** | **7** | **865** |

## AWDURDODAU LLEOL ERAILL

| Paneli Apêl Ysgolion | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn Ystyriaeth Gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Parc y Rhath | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Sketty | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Millbrook | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Tiryberth | | | | | 1 | | | | | **1** |
| Ysgol Basaleg | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Bryngwyn | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gyfun Caerleon | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Monnow | | | | | 1 | | | | | **1** |
| Ysgol Gyfun Radyr | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Rhydypennau | | | 2 | | | | | | | **2** |
| Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Llysfaen | | | | | | | | | 1 | **1** |
| Ysgol Gynradd Gwynllyw | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Treganna | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Mynydd Isaf | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Bryn Teg | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Mount Stuart | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Panel Apêl Eithrio - Ysgol Uwchradd Willows | | | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | | **1** | **16** | | **2** | | | | **1** | **20** |

## AWDURDODAU LLEOL ERAILL (PARHAD)

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau yn ystod y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2014 ("y cyfarfod"). Cyhuddwyd yr aelod o ddefnyddio ei swydd yn amhriodol a methu â datgan buddiant rhagfarnus mewn trafodaethau a oedd yn ymwneud â chais cynllunio am godi tyrbin gwynt. Dywedodd yr achwynydd fod yr aelod cyhuddedig a'r ymgeisydd ill dau'n ffermwyr yn yr un ardal ac roedd yn amau bod yr aelod cyhuddedig wedi darllen datganiad a baratowyd gan yr ymgeisydd i'r cyfarfod er mwyn osgoi penderfyniad y Cyngor i beidio â chaniatáu iddo siarad yn y cyfarfod.

Nid oedd yr ymchwiliad wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod buddiant gan yr aelod cyhuddedig yn y mater a oedd dan sylw. Gan nad oedd unrhyw dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod yr aelod cyhuddedig, neu rywun â chysylltiad agos ag ef, wedi ymwneud mewn ffordd benodol â'r ymgeisydd a/neu ei fod yn gysylltiedig â'r cais, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi y byddai rhywun gwrthrychol yn ystyried yn rhesymol fod ffactorau fel buddiant cyffredin mewn ffermio ac agosrwydd rhwng safle'r cais a chyfeiriad cartref yr aelod yn rhai mor arwyddocaol fel y byddid yn credu bod gan yr aelod fuddiant yn y mater. Ar ben hynny, nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi darllen datganiad yr ymgeisydd yn uchel yn ystod y cyfarfod. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi torri'r Cod.

**Cyngor Sir Ynys Môn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201400184 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau yn ystod y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2014 ("y cyfarfod"). Cyhuddwyd yr aelod o gamddefnyddio ei swydd a methu â datgan buddiant rhagfarnus mewn trafodaethau a oedd yn ymwneud â chais cynllunio am godi tyrbin gwynt. Dywedodd yr achwynydd fod yr aelod cyhuddedig a'r ymgeisydd ill dau'n ffermwyr yn yr un ardal sydd â chysylltiad â ffermydd gwynt.

Nid oedd yr ymchwiliad wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod buddiant gan yr aelod cyhuddedig yn y mater a oedd dan sylw. Gan nad oedd unrhyw dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod yr aelod cyhuddedig, neu rywun â chysylltiad agos ag ef, wedi ymwneud mewn ffordd benodol â'r ymgeisydd a/neu ei fod yn gysylltiedig â'r cais, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi y byddai rhywun gwrthrychol yn ystyried yn rhesymol fod ffactorau fel buddiant cyffredin mewn ffermydd gwynt ac agosrwydd rhwng safle'r cais a chyfeiriad cartref yr aelod yn rhai mor arwyddocaol fel y byddid yn credu bod gan yr aelod fuddiant yn y mater. Ar ben hynny, nid oedd tystiolaeth bod yr aelod, tua adeg y cyfarfod, wedi cyflwyno unrhyw geisiadau am dyrbin gwynt a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod.

**Cyngor Bro Morgannwg – Gwrthrychedd a phriodoldeb**
**Cyfeirnod achos 201305568 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Bro Morgannwg yn anfoesgar ac anghwrtais ac wedi siarad yn uchel ac yn ymosodol ag aelodau o'r cyhoedd ar ymweliad safle ar 16 Ionawr 2014. Cwynwyd hefyd fod yr aelod cyhuddedig wedi ymddwyn yn annheg ac yn unochrog drwy gerdded o'r safle gyda'r ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ac nad oedd yr achwynydd yn ymddiried yn ei allu i benderfynu ar y cais mewn ffordd agored, deg a diduedd.

Terfynodd yr Ombwdsmon y rhan o'r ymchwiliad a oedd yn ymwneud ag ymddygiad anfoesgar ac anghwrtais am nad oedd tystiolaeth i ategu'r honiad ond ymchwiliodd i weddill y gŵyn.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth a oedd yn dangos bod y cod wedi'i dorri. Nid oedd tystiolaeth bod yr aelod cyhuddedig wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn dangos na allai edrych yn ddiduedd ar y cais cynllunio. Nododd fod yr aelod cyhuddedig wedi caniatáu i gynrychiolydd o'r ddau grŵp annerch y Pwyllgor Cynllunio yn ystod yr ymweliad safle. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi ychwaith fod yr aelod cyhuddedig wedi cerdded o'r safle gan drafod materion â'r ymgeiswyr.

**Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd – Gwrthrychedd a phriodoldeb**
**Cyfeirnod achos 201401414 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2015**
Honnwyd bod yr aelod cyhuddedig wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol ynghylch materion cyflogaeth o fewn y Cyngor i bersonau y tu allan i'r Cyngor. Dechreuodd yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i ganfod a oedd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Cafodd yr Ombwdsmon nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn ddigon pendant i ategu'r honiad a wnaed a daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri mewn cysylltiad â'r mater dan sylw.

**Cyngor Tref Penmaen-mawr – Uniondeb**
**Cyfeirnod achos 201306327 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Penmaen-mawr ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan buddiant a chymryd rhan mewn trafodaethau am gais am grant i Gymdeithas Twristiaeth Penmaen-mawr (PENTA) yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013.

Ar y sail mai gŵr yr aelod cyhuddedig oedd trysorydd PENTA, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ganddi fuddiant mewn materion sy'n gysylltiedig â'r gymdeithas. Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau bod yr aelod cyhuddedig wedi datgan buddiant yn y cais am grant yn ystod y cyfarfod ac wedi gadael yr ystafell. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod.

**Cyngor Tref Tywyn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201402641 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau yn ystod y cyfarfodydd o'r Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014, drwy fethu â datgan buddiant rhagfarnus a gadael yr ystafell yn ystod trafodaethau am y rhodd ariannol i Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn a'r Cylch ("y STM").

Ar ôl ymchwilio i'r mater ac ar y sail bod yr aelod cyhuddedig wedi hysbysebu yn llawlyfr twristiaeth y STM, a'i fod felly'n aelod o'r sefydliad, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ganddo fuddiant mewn materion a oedd yn gysylltiedig ag ef. Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau ei fod wedi datgan y buddiant hwn yn ystod y cyfarfodydd perthnasol. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd buddiant yr aelod cyhuddedig yn rhagfarnus gan na fyddai wedi effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau ar y mater er budd y cyhoedd. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod.

**Cyngor Tref Tywyn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201402642 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau yn ystod y cyfarfodydd o'r Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014, drwy fethu â datgan buddiant rhagfarnus a gadael yr ystafell yn ystod trafodaethau am y rhodd ariannol i Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn a'r Cylch ("y STM").

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu, ar y sail bod yr aelod cyhuddedig wedi hysbysebu yn llawlyfr twristiaeth y STM, a'i bod felly'n aelod o'r sefydliad, fod ganddi fuddiant mewn materion a oedd yn gysylltiedig ag ef. Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau ei bod wedi datgan y buddiant hwn yn ystod y cyfarfodydd perthnasol. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd buddiant yr aelod cyhuddedig yn rhagfarnus gan na fyddai wedi effeithio ar ei gallu i wneud penderfyniadau ar y mater er budd y cyhoedd. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod.

**Cyngor Sir Fynwy – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201304608 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2014**
Cwynodd Mr M fod aelod o'r Cyngor Sir wedi gweiddi arno mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel ar 5 Gorffennaf 2012, gan ddweud ei fod wedi codi arwydd ar gât ynghylch cais cynllunio yr oedd hi wedi'i gyflwyno. Gwadodd Mr M ei fod wedi gwneud hyn. Dywedodd Mr M fod yr aelod wedi aros gyda'i gŵr y tu allan i'r man cyfarfod ar ôl y cyfarfod o'r Cyngor a'i bod hi wedi gweiddi'n uchel ac yn ymosodol ar Mr M. Roedd y cyfarfod yn gallu clywed gweiddi ond nid yr hyn a ddywedwyd. Cafwyd gwybod drwy wneud ymholiadau fod yr aelod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus pan ystyriwyd ei chais cynllunio a'i bod wedi gadael y cyfarfod tra oedd y cais yn cael ei ystyried.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

**Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201304707 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2014**
Cwynodd Mr M fod aelod o'r Cyngor Cymuned wedi gwneud sylwadau mewn ffordd fygythiol ac ymosodol wrth iddo adael cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel ar 5 Gorffennaf 2012, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at arwydd a godwyd ar gât fferm yr aelod yn gwrthwynebu ei gais cynllunio.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

## Nid oes angen gweithredu

**Cyngor Cymuned Tredemel – Gwrthrychedd a phriodoldeb**
**Cyfeirnod achos 201405156 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Cymuned Tredemel wedi camfanteisio ar ei swydd a hefyd wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod a'r Cyngor Cymuned.

Yn benodol, cwynodd Mr A fod yr aelod wedi fandaleiddio glan yr afon y tu allan i'w eiddo; ei fod wedi codi gât yn anghyfreithlon ar draws lôn fynediad a rennir; a'i fod wedi codi arwyddion yn gwahardd cŵn o'r lôn a oedd yn honni eu bod wedi'u codi drwy orchymyn y Cyngor Cymuned.

Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried gwahanol ddogfennau, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, ffotograffau o'r mannau a oedd yn destun anghydfod, sylwadau'r aelod cyhuddedig am y gŵyn, a chopïau o ohebiaeth rhwng cyfreithwyr y ddwy ochr.

Nid oedd yr Ombwdsmon wedi canfod unrhyw dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn cysylltiad â dwy elfen gyntaf y gŵyn, ond cafodd dystiolaeth a oedd yn awgrymu'n gryf bod y Cod wedi'i dorri mewn cysylltiad â'r drydedd elfen. Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried difrifoldeb y tor-amod posibl, ynghyd ag amgylchiadau lliniarol a daeth i'r casgliad ei bod yn annhebygol y byddai sancsiwn yn cael ei osod pe byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor safonau perthnasol. Felly, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau pellach mewn cysylltiad â'r mater hwn.

**Cyngor Tref Tywyn – Atebolrwydd a gweithredu agored**
**Cyfeirnod achos 201403463 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau yn ystod y cyfarfodydd o'r Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014, drwy fethu â datgan buddiant rhagfarnus a gadael yr ystafell yn ystod trafodaethau am y rhodd ariannol yn 2014 i Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn a'r Cylch ("y STM").

Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y Pwyllgor Safonau fod buddiant rhagfarnus gan yr aelod cyhuddedig mewn materion a oedd yn ymwneud â'r STM, oherwydd yr hanes o chwerwedd a'r anghydfod cyfredol rhwng y ddau barti. Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ganddi fuddiant mewn materion a oedd yn ymwneud â'r STM yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014. Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau nad oedd yr aelod cyhuddedig wedi datgan buddiant a/neu adael yr ystafell yn ystod y cyfarfodydd hyn pan drafodwyd y rhodd ariannol yn 2014 i'r STM.

Felly daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod tystiolaeth bod yr aelod wedi torri'r Cod ar yr achlysuron pellach hyn.  Fodd bynnag, gan fod y cyfarfodydd wedi'u cynnal cyn y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i ddarbwyllo y byddai'r Pwyllgor Safonau wedi gosod sancsiwn pellach pe byddai'r materion hyn wedi'u cyfeirio at y Pwyllgor Safonau a phe byddai'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu bod yr aelod wedi torri'r Cod ar yr achlysuron hyn. Felly, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau pellach mewn cysylltiad â'r materion a ystyriwyd yn yr ymchwiliad.

**Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig – Atebolrwydd a gweithredu agored**
**Cyfeirnod achos 201306890 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod cyn-aelod wedi camarwain y Cyngor yn nifer o gyfarfodydd y Cyngor drwy roi'r argraff ei fod wedi cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) am gyllid ar gyfer Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dywedodd y cyn-Gynghorydd fod ei gais i CDL wedi mynd drwy gam cyntaf y broses ac ymlaen i'r ail gam.

Ar ôl holi CDL, cafwyd mai dim ond wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb yr oedd y cyn-Gynghorydd ac nad oedd wedi gwneud cais am gyllid.  Dywedodd yr achwynydd fod y diffyg gweithredu ar ran y cyn-Gynghorydd wedi peri ei bod yn rhy hwyr i wneud cais a bod nifer o sefydliadau lleol wedi cael eu siomi. Gwahoddwyd y cyn-Gynghorydd i gael cyfweliad, ond ymddiswyddodd fel Cynghorydd Tref.

Cafodd yr Ombwdsmon ei bod yn bosibl bod y cyn-Gynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ond, gan ei fod wedi ymddiswyddo, nid oedd angen cymryd camau pellach.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201303994 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2014**
Cwynodd Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus yn llawn, a thrwy geisio defnyddio ei swydd yn amhriodol er ei fantais ei hun ac er mantais ei deulu drwy roi pwysau ar swyddogion y Cyngor i gyflymu'r broses o brynu eiddo yr oedd ei fab yn berchen arno ac yr oedd ganddo ef bridiant cyfreithiol arno.  Yn ystod rhan o'r cyfnod dan sylw, yr aelod oedd aelod Gweithredol y Cyngor dros Strategaeth Economaidd a Datblygu.

Cafodd yr Ombwdsmon fod buddiant personol a rhagfarnus gan yr aelod mewn unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor a oedd yn ymwneud ag eiddo ei fab.  Nid oedd wedi gweld tystiolaeth o unrhyw gyfarfod lle'r oedd yr aelod yn bresennol a lle nad oedd wedi datgan buddiant.  Fodd bynnag, roedd o'r farn bod un neges e-bost, a anfonwyd ar ran yr aelod, yn awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.  Cafodd fod yr aelod cyhuddedig wedi ceisio cael cyngor ar ei sefyllfa ac ar unrhyw ddatganiad o fuddiant y dylai ei wneud.  Pan gyfwelwyd ef, derbyniodd yr aelod fod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus yn y mater, ac y dylai fod wedi datgan buddiant.

Roedd yr Ombwdsmon wedi cymryd i ystyriaeth yr ymdrechion gan yr aelod i ddatgan ei fuddiant, y cyfaddefiad o'i gamgymeriad, a'r ffaith ei fod wedi ymddiswyddo fel aelod Gweithredol, a phenderfynodd nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

## Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201304901 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o'r Cyngor, tra oedd yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, wedi methu â datgan buddiant personol mewn cyfarfodydd a'i fod wedi methu â gadael yr ystafell pan ystyriwyd ceisiadau cynllunio a oedd wedi'u cyflwyno gan gwmni y mae ei Gyfarwyddwr yn ffrind i'r aelod.

Cafodd yr Ombwdsmon fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â nifer o ddarpariaethau yn y Cod Ymddygiad, gan gynnwys ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd drwy ei weithredoedd; ei fod wedi cyfrannu i drafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi arwain at ohirio'r cyfarfod a gwneud cais pellach wedyn am fwy o dai; a'i fod wedi methu â datgan buddiant personol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 12 Mai 2011, 18 Hydref 2012 a 21 Mawrth 2013. Cafodd yr Ombwdsmon hefyd fod yr aelod wedi methu â gadael yr ystafell mewn cyfarfodydd pan oedd ganddo fuddiant rhagfarnus ar 25 Tachwedd 2010, 14 Ebrill 2011, 12 Mai 2011, 18 Hydref 2012 a 21 Mawrth 2013; wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniadau pan oedd ganddo fuddiant rhagfarnus ar 21 Mawrth 2013; a'i fod wedi gwneud sylwadau llafar pan oedd ganddo fuddiant rhagfarnus ar 21 Mawrth 2013.

Ar 20 Ionawr 2015, cafodd Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod yr aelod cyhuddedig wedi torri nifer o rannau o'r Cod Ymddygiad a chafodd yr aelod ei atal am chwe mis. Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Sir Ynys Môn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201304118 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro gŵyn bod aelod o'r Cyngor Sir wedi torri'r Cod Ymddygiad wrth gyfathrebu â swyddogion y Cyngor ynghylch gwerthu darn o dir. Yn benodol, honnwyd bod yr aelod cyhuddedig wedi methu â datgan bod ganddo gysylltiad personol agos â darpar brynwr y tir. Yn ogystal â hyn, honnwyd bod yr aelod cyhuddedig wedi camddefnyddio ei swydd i gael mantais i'r darpar brynwr.

Ar ôl ystyried yr honiadau, penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i'r posibilrwydd bod yr aelod cyhuddedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i hargyhoeddi bod cysylltiad personol agos rhwng yr aelod cyhuddedig a darpar brynwr y tir oherwydd cyfeillgarwch hir a pherthynas deuluol. Daethpwyd i'r casgliad y dylai'r aelod cyhuddedig fod wedi ystyried a datgan buddiant personol pryd bynnag yr oedd yn siarad â Swyddogion y Cyngor neu'n ysgrifennu atynt ynghylch y gwerthiant a'r problemau a oedd yn gysylltiedig ag ef. Yn ogystal â hyn, roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i ddarbwyllo bod buddiant personol yr aelod cyhuddedig yn y mater hwn wedi troi'n un rhagfarnus pan gymerodd ran mewn trafodaethau a gohebiaeth ynghylch telerau ac amodau'r gwerthiant tir.

Yn ogystal â hyn, daeth yr Ombwdsmon Dros Dro i'r casgliad bod y dystiolaeth at ei gilydd yn awgrymu bod yr aelod cyhuddedig hefyd wedi defnyddio ei swydd i gael mantais i'w gydnabod agos. Er ei bod yn bosibl bod gweithredoedd yr aelod cyhuddedig a'i ran yn y mater wedi arwain at fantais ariannol i'r Cyngor, byddai mantais glir a diamheuol (o ganlyniad i'r telerau a gynigiwyd) i gydnabod agos yr aelod cyhuddedig.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro y dylid cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.  Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma. Mae'r aelod wedi cyflwyno apêl i Banel Dyfarnu Cymru.

**Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201301821 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2014**
Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro gŵyn gan aelod o'r Cyngor Cymuned fod aelod arall wedi gweithredu mewn ffordd amharchus a bwlïaidd yn ystod cyfarfodydd o'r Cyngor ac yn ystod ymweliad â gweddw Clerc ymadawedig y Cyngor.

Yn ystod yr ymchwiliad cyfwelwyd aelodau'r Cyngor a'r aelod cyhuddedig ynghylch y mater. Cafodd yr ymchwiliad fod yr aelod cyhuddedig wedi defnyddio ei swydd i weld gwybodaeth am resymau personol, yn groes i'r Cod Ymddygiad. Roedd hyn yn cynnwys ymweld yn ddirybudd â gweddw'r Clerc ymadawedig.  Roedd yr ymchwiliad wedi cael hefyd ei bod yn bosibl bod yr aelod cyhuddedig, wrth weithredu fel hyn, wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod.

Gyda golwg ar ymddygiad yr aelod cyhuddedig yn ystod cyfarfodydd, nodwyd bod ei ymddygiad wedi digwydd yn ystod busnes y Cyngor ac y gellid ystyried ei fod o natur wleidyddol.  Oherwydd hyn, gan fod Erthygl 10 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gymwys, roedd ymddygiad yr aelod cyhuddedig wedi'i amddiffyn i fwy o raddau.  Felly, ni ellid ystyried bod ei ymddygiad yn groes i'r Cod Ymddygiad.

Cafodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio achos yr aelod cyhuddedig at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

# Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Ffôn** **01656 644200**
**Ffacs** **01656 641199**
**e-bost** **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon**

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Atodiad 2

# Coflyfr y Cod Ymddygiad

Rhifyn 5 Gorffennaf 2015

## Tu fewn

Cwflwyniad 1

**Crynodebau Achosion**

Dim tystiolaeth o dor-amod 3

Nid oes angen gweithredu 4

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 6

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 7

Mwy o Wybodaeth 8

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

(Parheir trosodd)

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Ebrill i Gorffennaf 2015, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dor-amod

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201406095 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mehefin 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy wneud sylw ar y cyfryngau cymdeithasol lle teimlai'r achwynydd ei fod wedi awgrymu ei fod wedi ymddeol yn gynnar oherwydd cysylltiad â gweithgarwch paedoffilig.

Eglurodd y Cynghorydd nad oedd yn fwriad ganddo awgrymu mai'r achwynydd oedd y sawl y cyfeiriwyd ato yn y sylw, ac mai aelod o'i deulu oedd yr unigolyn dan sylw. Dadleuodd y Cynghorydd hefyd fod y cysylltiad â phaedoffilia wedi'i gamgymryd a'i fod wedi ceisio egluro hyn drwy ddiwygio'r cyfeiriad.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod.

**Cyngor Tref Penmaenmawr – Unplygrwydd**
**Cyfeirnod achos 201306326 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Ebrill 2015**
Cwynodd nifer o unigolion bod aelod o Gyngor Tref Penmaenmawr ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau drwy drefnu bod gwybodaeth ffug yn cael ei chynnwys yng nghyfrifon ariannol y Cyngor a thrwy beidio â datgan buddiant a chymryd rhan yn y trafodaethau am fusnes y Cyngor yn ymwneud â Grŵp Trafnidiaeth Cymunedol lleol ("y Grŵp") a chanolfan gymunedol. Dywedodd yr achwynwyr bod cwmni'r Cynghorydd yn archwilio cyfrifon y Grŵp a'r Ganolfan Gymunedol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio a oedd y Cynghorydd wedi torri sawl rhan o'r Cod ai peidio. Cafwyd tystiolaeth gan Glerc y Cyngor, gan Drysorydd y Grŵp a chan aelod o'r cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â rhedeg y ganolfan gymunedol. Rhoddodd y Cynghorydd ei sylwadau ar y gŵyn hefyd.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw beth i awgrymu bod y cofnod yng nghyfrifon ariannol y Cyngor yn anghyffredin. Yn ogystal â hynny, nid oedd yr Ombwdsmon yn argyhoeddedig bod gan y Cynghorydd fuddiant yn y materion o gan nad oedd perthynas ffurfiol rhwng ei gwmni a'r Grŵp a'r ganolfan gymunedol. Felly, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod.

## Nid oes angen gweithredu

**Cyngor Tref Tywyn– Unplygrwydd**
**Cyfeirnod achos 201400682 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mehefin 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Tywyn ("y Cynghorydd"), a oedd hefyd yn Gadeirydd ar Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn a'r Cylch, wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy ddefnyddio ei safle i gael mantais arianol iddo ef ei hun ac i aelod arall drwy ei aelodaeth o Grŵp Profiad Gwynedd ("y Grŵp"). Cwynodd fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod ar sawl achlysur yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Ariannol a'r Cyngor drwy beidio â datgan buddiant rhagfarnus yn y mater na gadael yr ystafell yn ystod trafodaethau am faterion y grŵp ac am y rhodd ariannol i'r Siambr Twristiaeth a Masnach. Cwynodd hefyd am ymddygiad y Cynghorydd tuag at yr aelodau a dau siaradwr gwadd yn ystod cyfarfod y Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio a oedd y Cynghorydd wedi mynd yn groes i baragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a), 7(a), 10(1), 11(1), 14(1)(a), 14(1)(c) and 14(1)(e) yn y Cod Ymddygiad. Cafwyd tystiolaeth gan Glerc y Cyngor, gan aelodau o'r Grŵp a chan aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd perthnasol. Cynhaliwyd cyfweliad ffurfiol â'r Cynghorydd.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi defnyddio ei safle yn y Grŵp i gael mantais iddo'i hun nag i unrhyw un arall. Roedd y dystiolaeth yn egluro'n llawn pam ei fod wedi dechrau gwneud gwaith ar ran y Grŵp i sicrhau ei fod yn gallu cael arian drwy gynllun cymunedol lleol er budd Tywyn.

Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau bod y Cynghorydd wedi methu â datgan buddiant ym materion y Grŵp a'i fod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar un achlysur ac wedi methu â mynd o'r ystafell dro arall pan drafodwyd y rhodd ariannol i'r Siambr Twristiaeth a Masnach. Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon yn ystyried buddiant y Cynghorydd ym materion y Grŵp mor sylweddol fel ei fod wedi bod yn debygol iddo ddangos rhagfarn ar y materion hyn. Er bod y Cynghorydd wedi gweithredu'n anghyson pan drafodwyd y rhodd ariannol i'r Siambr Twristiaeth a Masnach, efallai bod hyn o ganlyniad i'r cyngor y dywedodd iddo'i gael a'r ffaith na gofynnwyd iddo adael cyn hynny, pan oedd ganddo ganiatâd i drafod materion ynghlwm â'r rhodd yn 2013. Am y rhesymau hyn, nid oedd yr Ombwdsmon yn credu y byddai cymryd camau pellach ynglŷn â'r materion hyn o fudd i'r cyhoedd gan y byddai'r gorddefnydd o adnoddau'n ormodol o'i gymharu â'r sancsiwn tebygol.

Yn olaf, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth bod ymddygiad y Cynghorydd yn ystod cyfarfod y Cyngor i yn achos o dorri'r Cod. Nid oedd tystiolaeth benodol bod y Cynghorydd wedi gwneud unrhyw sylwadau y gellid eu hystyried yn sarhaus neu y tu hwnt i fynegiant gwleidyddol. Hefyd, nid oedd digon o dystiolaeth i brofi bod y Cynghorydd wedi rhoi unrhyw bwysau gormodol ar aelodau'r cyfarfod hwnnw.

**Cyngor Sir Gâr & Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri – Datgelu cofrestriad a buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201401709 & 201403143 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mehefin 2015**
Gwnaed nifer o gwynion amrywiol bod gan aelod o Gyngor Sir Gar a Chyngor Cymuned Llanstaffan a Llan-y-bri ill dau ('y Cynghorydd') fuddiant personol a rhagfarnus mewn cais cynllunio ar gyfer tyrbin gwynt. Dywedwyd bod y Cynghorydd wedi gyrru'n beryglus ar y ffordd i ymweld â'r safle, wedi ymweld â'r safle ac yna wedi annerch y cyfarfod cynllunio mewn perthynas â'r cais.

Cafwyd cyfweliad â'r Cynghorydd. Cyfaddefodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ers sawl blwyddyn a'i fod wedi gofyn cyngor am y mater hwn gan y Swyddog Monitro. Gwadodd ei fod wedi gyrru'n beryglus a dywedodd nad oedd yr heddlu wedi ymchwilio i'r honiad hwn. Dywedodd y Cynghorydd ei fod wedi datgan buddiant mewn cyfarfodydd lle trafodwyd y cais. Cyfaddefodd ei fod wedi annerch y pwyllgor cynllunio yn ystod yr ymweliad â'r safle, ac na chafodd aelodau o'r cyhoedd eu cynnwys. Dywedodd ei fod wedi gadael ar ôl annerch y cyfarfod hwyrach.

Yng nghyswllt ei rôl yn y cyfarfodydd cynllunio, canfuwyd nad oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad yn unol ag adran 69 (4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (DLlL).

Tra oedd y Cynghorydd yn ymweld â'r safle, ystyriwyd ei fod wedi mynd yn groes i'r paragraffau canlynol o'r Cod: 11 (a) methu â datgan buddiant personol, 14 (1) (a) methu â gadael y cyfarfod a 14 (1)(e) cyflwyno sylwadau llafar gyda buddiant personol. Nid ystyriwyd bod angen gweithredu ar unrhyw beth arall dan adran 69 (4) (b) yn y DLlL.

**Cyngor Cymuned Llanfynydd – Uniondeb**
**Cyfeirnod achos 201403492 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mehefin 2015**
Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Cymuned Llanfynydd ("y Cynghorydd") wedi methu â datgan buddiant mewn cais cynllunio ar bum achlysur gwahanol rhwng 2010 a 2014, er gwaetha'r ffaith ei fod yn byw mewn eiddo a oedd yn ffinio â'r datblygiad arfaethedig.

Canfuwyd yn yr ymchwiliad bod buddiant rhagfarnus ganddi, a bod yr aelod a gyhuddwyd nid yn unig wedi methu â datgan buddiant, ond cymerodd ran mewn trafodaethau a oedd yn ymwneud â'r datblygiad arfaethedig.

Wedi ystyried yr wybodaeth oedd ar gael, penderfynodd yr Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu torri'r Cod, o ystyried bod yr aelod a gyhuddwyd wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod maes o law ac yn deall ei hymrwymiadau. Roedd yn anhebygol y byddai sancsiwn mwy yn cael ei roi pe bai Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn canfod bod rhywun yn torri'r Cod felly nid oedd gweithredu ymhellach ar y mater er budd y cyhoedd. Felly, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na ddylid cymryd camau pellach.

## Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201304589 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Ionawr 2015**
Ynghylch ymddygiad aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y Cynghorydd'). Dywedodd Mr B ei fod wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 12 Rhagfyr 2012 i wrthwynebu cais cynllunio ei gymydog. Wrth ymateb i wrthwynebiad Mr B, dywedodd y Cynghorydd Mr B wedi cael rhybudd swyddogol gan yr heddlu am droseddau gydag arfau tanio o ganlyniad i fygwth swyddog o'r Cyngor â gwn. Dywedodd Mr B nad oedd hyn yn wir ac nad oedd wedi'i gyhuddo na'i rybuddio am unrhyw droseddau gydag arfau tanio ac nad oedd hyn yn effeithio o gwbl ar y cais. Cadarnhaodd Heddlu De Cymru nad oedd Mr B wedi'i gyhuddo o droseddau gydag arfau tanio, nac ychwaith wedi cael ei rybuddio am y fath drosedd.

Ar 13 Ebrill 2015, cytunodd y Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd wedi mynd yn groes i baragraffau canlynol y Cod - 4(b) (trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth) a 6 (1)(a) (dwyn anfri ar swyddogaeth).

Dyfarnodd y Pwyllgor Safonau gyfnod o ddau fis o waharddiad ar gyfer y ddau achos o dorri'r cod, i'w gweithredu'n gydolynol, sydd felly'n golygu bod y Cynghorydd yn cael ei wahardd am gyfnod o bedwar mis.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

# Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad.  Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys.  Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Ffôn** **01656 644200**
**Ffacs** **01656 641199**
**e-bost** **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon**

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Medi 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Protocol Hunanreoleiddio ar gyfer Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Darparu protocol drafft i Aelodau sy'n debyg i fersiwn y Cyngor Sir ond ei fod wedi ei addasu i ystyried maint, cyfansoddiad ac adnoddau cynghorau cymuned.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Protocol Hunanreoleiddio ar lefel Cyngor Sir ac ynghlwm mae drafft cyntaf y fersiwn posibl i'w hargymell i'r cynghorau tref, dinas a chymuned.

2.2 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymell y dylid datblygu protocolau hunanreoleiddio ar lefel gymunedol. Nid oes amserlen benodol wedi ei gosod a dewis y cynghorau tref, dinas a chymuned yw mabwysiadu protocol o'r fath.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r protocol drafft ac yn mynegi barn ar unrhyw newid sydd ei angen, goblygiadau ymarferol mabwysiadu'r ddogfen gan gynghorau ac unrhyw agwedd arall a all gynorthwyo'r Swyddog Monitro wrth lunio protocol addas.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r protocol drafft ar gael yn Atodiad 1, ynghyd ag egwyddorion amlinellol. Ni awgrymir y dylai'r protocol fod yn fanylach na hyn gan fod y broses wedi ei dylunio i beidio â defnyddio gormod o bapur, gyda'r pwyslais ar drafodaethau wyneb yn wyneb, cyfryngu a datrys anghydfodau neu broblemau mewn modd cymodol.

4.2 Gall y Pwyllgor Safonau ystyried y dylai rôl y pwyllgor fod yn fwy neu lai, ac mae angen mynegi barn ar hyn. Mae mewnbwn y Swyddog Monitro yn fychan gan fod y mater yn ymwneud â datrys anghydfodau lefel isel y dylid gallu ymdrin â

hwy yn lleol ar lefel cymuned neu drwy adolygiad gan gymheiriaid gyda chymorth cyngor cymuned cyfagos neu gyngor cymuned arall; dim ond yn niffyg popeth arall y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Cyngor gweithrediad uchel sy'n gweithio'n agosach at ei gymunedau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes goblygiadau ar gyfer gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi ei gynnal hyd yn hyn; cynigir y bydd cyfarfodydd Clwstwr Clercod yn derbyn y drafft terfynol i'w ystyried. Nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer ymgynghoriadau ychwanegol o fewn y Cyngor Sir gan nad oes ar y Cyngor Sir angen mabwysiadu'r protocol hwn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

8.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn uniongyrchol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Nid oes unrhyw risg wedi ei nodi.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

[gosodwch Log Cyngor Tref, Dinas neu Gymuned yma]

# PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO AELODAU

**Egwyddorion Cyffredinol**

- Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith Aelodau. NID yw'n fwriad iddo gymryd lle'r Cod Ymddygiad, yn hytrach, y bwriad yw gweithredu ochr yn ochr â'r Cod, gan alluogi delio ag ymddygiad nad yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer mynd i'r afael ag o; ac sy'n cyfiawnhau gwneud cwyn ffurfiol i'r Ombwdsmon yn y modd arferol.

- Mae'r protocol hwn ond yn berthnasol i gwynion lefel isel rhwng aelodau mewn Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned, nid ar gyfer cwynion gan y cyhoedd a ddylai gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Bydd yr Aelodau yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau trwy brosesau mewnol y cytunwyd arnynt yn amodol ar eu rhwymedigaethau o dan God Ymddygiad yr Aelodau.

- Dewis olaf fydd cyfeirio materion i reoleiddwyr allanol yn amodol ar rwymedigaethau Aelodau o dan y Cod Ymddygiad.

- Bydd aelodau yn osgoi gwrthdaro personol neu ymosodiadau mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig yn y Cyngor a thrwy'r cyfryngau neu rwydweithio cymdeithasol.

- Ni fydd yr ymrwymiadau hyn yn rhwystro trafodaeth neu graffu gwleidyddol dilys.

- Os oes gan y Cyngor 'Arweinwyr Grwpiau' gwleidyddol, byddant yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau y cydymffurfir â'r protocol hwn

- Bydd yr Aelodau'n ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r protocol hwn.

- Mae'r term 'cyngor cymuned' yn cael ei ddefnyddio, ond bydd yn golygu unrhyw gyngor tref, dinas neu gymuned.

- Lle gofynnir am gymorth gan gyngor arall, oherwydd natur y gŵyn, neu lle mae agwedd 'cyfoedion' yn fwy priodol; yna bydd y clerc yn cysylltu â'r clerc yn y cyngor priodol. Penderfyniad i'r cyngor yw pa gyngor cymuned maent yn gwneud yr atgyfeiriad iddo, yn yr un modd penderfyniad i'r cyngor derbyn yw a ddylid derbyn y cais am gymorth.

- Os bydd y broses yn cyrraedd cais am gyfraniad y Pwyllgor Safonau, efallai y bydd y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb) yn ystyried ei bod yn briodol i un Aelod o'r Pwyllgor Safonau fod yn bresennol yn y lle cyntaf.



DRAFT

## MEMBER / MEMBER COMPLAINTS FLOWCHART

COMPLAINT RECEIVED BY CLERK.
CLERK CONSIDERS APPROPRIATENESS OF REFERRAL TO CHAIR, ANOTHER COMMUNITY COUNCIL (TCCC) OR PSOW

→ PSOW

↓

CHAIR OF COUNCIL / COMMUNITY COUNCIL

**Left branch:**

T,C or C C

↓

TC or CC CONSIDERS COMPLAINT & RESOLUTION (within agreed timescales )

↓

IF UNABLE TO RESOLVE CONSIDERATION TO BE MADE FOR A REFERRAL TO THE STANDARDS COMMITTEE.

**Right branch:**

CHAIR OF COUNCIL

↓

CHAIR CONSIDERS COMPLAINT & RESOLUTION
(within agreed timescales)

↓

IF NOT POSSIBLE TO RESOLVE BETWEEN CHAIR CONSIDERATION TO BE MADE FOR A REFERRAL TO THE STANDARDS COMMITTEE.

↓

REFERRAL TO THE STANDARDS COMMITTEE OR PSOW. CONSIDERATION OF PROVISION OF TRAINING / MEDIATION

CONSIDERATION WILL BE GIVEN TO REFERENCES TO THE OMBUDSMAN FOR PERSISTENT, LOW LEVEL BREACHES.

DRAFT

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag